



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Ymgynghoriad Cynigion Diwygiedig: Cynrychiolaethau

Cyrol 14: 10831 - 10853

BCW-10831 / Cynghorydd Paxton Hood-Williams / Swansea

Rwy'n llwyr gefnogol i'r newidiadau arfaethedig i ffiniau etholaethau parthed etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

Fel y dywedais eisoes, mae trigolion Y Crwys a Chilâ Uchaf yn naturiol yn defnyddio cyfleusterau cymdeithasol a manwerthu yng Nghilâ, ac yn teithio trwy Gilâ, Dyfnant a Thre-gŵyr i gael mynediad at ardaloedd ymhellach i ffwrdd. Mae'n amlwg wrth eu henwau, fod Cilâ a Chilâ Uwch, i bob pwrpas yn endid. Hefyd, mae cyfarfod lleol yr Heddlu a Chymunedau Gyda'n Gilydd (Pact) yn cynnwys ardal y Crwys, Cilâ Uchaf a Dyfnant oherwydd iddynt ffurfio ardal gydlynol. Ar ben hynny, mae sefydliad Swyddogion Cymorth Cynorthwyol yr Heddlu (PCSO) presennol, wedi'i sefydlu i gynnwys yr un ardal.

Ar raddfa ehangach, mae trefn plismona lleol yn cydnabod strwythur cymdeithasegol yr ardal, gan fod sarjant Heddlu De Cymru sy'n goruchwyllo yn gwasanaethu Gŵyr, Cilâ a Dyfnant yn ogystal ag ardaloedd Sgeti, y Mwmbwls a West Cross.

Rwyf hefyd yn falch iawn o weld mai enw'r etholaeth fydd Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

BCW-10832 / [REDACTED] / Caerdydd

Hoffwn wrthwynebu'r cynnig diwygiedig i symud Cathays o Ganol Caerdydd gan greu Dwyrain Caerdydd ac yn hytrach ei roi yn Ne Caerdydd. Nid yw hyn yn gwneud llawer o synnwyr o ystyried y cysylltiadau ers tro rhwng Wardiau Canol Caerdydd gan gynnwys eu lleoliad, eu hagosrwydd, dalgylchoedd eu hysgolion uwchradd a meddygon teulu yn gorgyffwrdd, a'r poblogaethau mawr o fyfyrwyr sy'n pontio Plasnewydd a Cathays yn benodol. Hefyd, mae'n weddol hawdd symud rhwng Wardiau Canol Caerdydd presennol ar droed/ beic / bws (teithio cynaliadwy) gan atgyfnerthu'r cysylltiadau cymunedol. Cefais fy ngeni yng Nghaerdydd ac rwyf wedi byw/ gweithio ym mhob un o Wardiau presennol Canol Caerdydd dros gyfnod o 52 mlynedd ac felly gallaf dystio i gryfder y teimlad o gymuned a hunaniaeth. Nid wyf yn gallu nodi unrhyw gysylltiad cryf rhwng Cathays a De Caerdydd. Yn anffodus mae'n ymddangos fel ymarfer cydbwysu rhifau heb fawr o ystyriaeth ynghylch yr effaith ar ysbryd ac uniaethu cymunedol. Rwy'n gobeithio y bydd y Comisiwn yn ailystyried. Diolch

BCW-10833 / [REDACTED] / Bangor

Helo,

Gweler yn atodedig, mewn fformat Word .doc, fy marn gefnogol ar y cynnig am etholaeth "Aberconwy Bangor", yn ogystal â fy sylwadau llai cadarnhaol ar y cynigion diwygiedig ar gyfer gweddill Cymru.

Byddai croeso mawr i unrhyw welliannau i'r olaf yn y cyfnod cynnig terfynol, ar yr amod nad yw'n effeithio ar y seddi arfaethedig synhwyrol ar gyfer y gornel hon o'r wlad

Hoffwn ddiolch unwaith eto i'r Comisiwn am ei amser a'i ymdrechion drwy gydol y broses hon.

Cofion gorau

[REDACTED]

1. Cyfeiriad at y cyflwyniad gwreiddiol

Diolch i'r Comisiwn am gyhoeddi fy sylw blaenorol #10055 ac am roi ystyriaeth briodol iddo.

2. Yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch amgylchiadau personol

Ers y cyfnod ymgynghori cychwynnol, rwyf wedi symud yn ôl i Gymru ac rwyf nawr, unwaith eto, yn byw ym Mangor, y tro hwn, nid at ddibenion astudio, ond yn syml, fel y lle yr wyf wedi dewis byw ynddo.

3. Cefnogaeth ar gyfer y Trefniant Lleol

Rwyf o blaid cysylltu ardal Bangor ag awdurdod lleol Cyngor Bwrdeistref Conwy, at ddibenion etholiadau seneddol. Buaswn wedi ei galw 'Bangor a Llandudno' ar ôl ei ddau brif anheddiad yn hytrach na 'Bangor Aberconwy' ond nid wyf eisiau cwestiynu'r ffiniau eu hunain ar hyn o bryd, felly nid wyf eisiau gwneud gormod o ffwdan yn seiliedig ar yr enw yn unig.

Mae cysylltiadau trafniadaeth da ar hyd arfordir Gogledd Cymru diolch i ffordd ddeuol yr A55 a'r brif reilffordd, yn ogystal ag i lawr i Fetws-y-coed ar hyd ffordd yr A5. Ar ben hynny, mae llawer o drigolion dros dro yma ym Mangor yn fwy tebygol o edrych yn ôl tua'r dwyrain yn hytrach nag i'r gorllewin neu i'r dde o'r ddinas

Yn bersonol, ers dychwelyd i Fangor dymor hir, dim ond unwaith rydw i wedi mynd ar y bws i gyfeiriad y gorllewin, ond rydw i wedi mynd ar y trên i Landudno, Conwy a Chyffordd Llandudno ac wedi cael fy ngyrru i Fae Colwyn ac Abergele.

Nid wyf wedi bod i Ynys Môn ers 2016, a fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth lywodraethol ar gyfer yr Adolygiad hwn yn caniatáu i Fangor gael ei chysylltu â'r ynys. Ar adeg ysgrifennu'r erthygl hon, mae un o'r pontydd dros Afon Menai hefyd ar gau.

Rhwng nawr a'r Adolygiad nesaf o'r ffiniau, byddwn yn disgwyl ymweld â'r llefydd a enwyd eisoes yn amlach na Chaernarfon neu Ben Llŷn. Yn wir, rwyf eto i osod troed yn yr olaf er gwaethaf cysylltiad ysbeidiol â Gogledd Orllewin Cymru yn ymestyn yn ôl mor bell â haf 2008.

4. Barn ar Gynigion Diwygiedig ar gyfer Gweddill Cymru

Er na allwn fod wedi disgwyl i'r Comisiwn fabwysiadu fy nghynnig yn llawn a heb ei newid, yn enwedig gan fod llawer o gyfuniadau dilys ond amherffaith o wardiau mewn rhai meysydd (fel, yn benodol, y posibiladau amrywiol ar gyfer y darn o awdurdodau lleol Casnewydd-Caerffili-Caerdydd-RhCT) byddwn wedi gobeithio y byddai'r uwch Gomisiynwyr wedi cymryd y rhannau gorau o gynlluniau Cymru gyfan o sylwadau pobl eraill a'r Comisiynwyr Cynorthwyol er mwyn creu map mwy cydlynol a synhwyrol drwyddi draw erbyn hyn.

Er fy mod yn gwerthfawrogi cyfyngiadau anodd y gofynion cyfreithiol ers yr Adolygiad mabwysiedig diwethaf, a bod cwmp o 39 sedd i 31 ar gyfer tir mawr Cymru yn golygu y bydd mwy o darfu ar etholaethau presennol nag mewn unrhyw ran arall o'r

DU, er hynny, rwy'n siomedig yn yr ymdrechion swyddogol diweddaraf a nawr gallaf ond gofyn yn gwrtais am fwy o synnwyr cyffredin yn y cyfnod olaf hwyr hwn.

Nid wyf yn mynd i fynd drwy'r holl drefniadau arfaethedig tanlyd ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru na De Cymru yn unigol, ond hoffwn bledio nad oes unrhyw etholaeth arfaethedig ond ychydig fetrau i ffwrdd o ddiffyg cydgyffwrdd yn llwyr.

5. Effaith ar Etholiad Nesaf y Senedd

Nid yw'n ymddangos bod y Ddeddf Etholaethau Seneddol sydd mewn grym ar hyn o bryd yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i ystyried sgil-ffeithiau eu cynnig ar Etholiad Cyffredinol Cyffredin canlynol i Senedd Cymru, ni fydd tan wanwyn 2026.

Fodd bynnag, rwy'n credu ei bod yn bwysig i Gomisiynwyr gadw'r canlyniadau posibl hyn mewn golwg. Ar hyn o bryd mae cynnig gan Lywodraeth Cymru i fabwysiadu system etholiadol newydd.

Os caiff y cynnig hwn ei fabwysiadu: Yna caiff Cymru ei rhannu'n 16 etholaeth aml-aelod at ddibenion etholiadau'r Senedd yn unig. I ddechrau, bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gyfuno dwy etholaeth Tŷ'r Cyffredin cyfagos ledled Cymru. Byddai Adolygiad y Senedd yn unig o'r ffiniau mewn pryd ar gyfer yr etholiad canlynol, sydd wedi'i osod ar hyn o bryd ar gyfer mis Mai 2031. Yn y cyfamser, dylai'r Comisiwn fod yn ymwybodol yn ystod ei drafodaethau o'r angen i wneud parau o'r fath yn gydlynus.

Os NA chaiff y cynnig hwn ei fabwysiadu: mewn achos o'r fath, mae'n debygol y bydd y system bresennol yn cael ei chynnal yn ddiodyn. Mae hyn yn golygu cysylltiad cyffiniol rhwng y ffiniau a ddefnyddir ar gyfer etholiadau i Senedd y DU ac ar gyfer elfen blwraliaeth syml etholiadau Senedd Cymru. Defnyddiwyd ffiniau presennol y Senedd yn gyntaf ar gyfer etholiad 2007 i'r Cynulliad ar y pryd ac maent felly eisoes wedi dyddio, felly rwyf yn ystyried ei bod yn debygol y bydd ffiniau San Steffan sy'n seiliedig ar ddata etholwyr mwy diweddar yn cael eu mabwysiadu ar gyfer cyfran etholaethol un-aelod etholiad nesaf y Senedd. Felly, dylai'r Comisiwn fod yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb ychwanegol hwn wrth lunio'r seddi arfaethedig o dan yr Adolygiad hwn.

BCW-10834 / [REDACTED] / Pontardawe

Ni allaf amgyffred pam bod Pontardawe wedi cael ei symud i ward Aberhonddu. Yn ddaearyddol mae'r ardal filltiroedd i ffwrdd, ac nid yw'r etholwyr o wardiau Castellnedd/Abertawe yr un fath ag o ward Aberhonddu. Mae Aberhonddu yn gwbl wledig ac ni fydd ein pryderon yn cael eu hymladd drostynt gan ein bod yn agosach at y ddinas ac ni fydd gennym yr un pryderon. Nid ydw i'n deall sut y bydd anghenion y ddau grŵp o etholwyr yn cael eu hystyried yn deg.

Rwy'n credu bod pobl yn anymwybodol iawn o'r newidiadau arfaethedig hyn a'u bod wedi cael ychydig iawn o amser i gyflwyno ymateb.

Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wrthdroi gan fod pobl Pontardawe yn cael eu siomi ac ni fydd eu lleisiau'n cael eu clywed yn deg.

Annwyl Gomisiwn,

Rwyf yn gwerthfawrogi eich gwelliannau ac yn credu fod yr argymhellion yma yn fwy synhwyrol na'r argymhellion blaenorol. Ond credaf fod mwy o welliannau posib.

Rwyf yn croesawu fod Penrhosgarnedd yn dod yn ol at weddill Bangor. Rwyf hefyd yn cael yr argraff fod yr argymhellion newydd yn tueddu i roi ardaloedd tebyg i'w gilydd yn yr un etholaeth, er enghraifft mae etholaeth "Gogledd Clwyd" yn rhoi ardaloedd arfordirol, mwy trefol gyda'i gilydd. Mae hyn yn welliant.

Ond credaf fod dal problemau a ellir datrys.

Yn gyntaf, mae'n anffodus fod Bangor a Chaernarfon dal wedi'i gwahannu. Rwyf yn gwerthfawrogi fod y comisiwn yn gyndyn i ystyried eu cadw gyda'i gilydd gan y byddai hyn yn creu'r angen am newidiadau mewn ardaloedd eraill. Ond credaf yn gryf fod posib cadw etholaeth naturiol Arfon, wedi'i ehangu, heb greu etholaethau annaturiol mewn ardaloedd eraill. Mae'r comisiwn wedi nodi y byddai etholaeth Arfon wedi ei ehangu yn gorfod cynwys tref Conwy ac felly rhannu cymuned Conwy. Ond gellir rhoi ward Conwy gyda etholaeth arfordirol i'r dwyrain, ac ehangu Arfon dim ond tuag at Ddwygyfylchi a Chapelulo (ac i'r de byddai angen i Arfon gynwys Penrhyndeudraeth i gyrraedd y cwota). Byddai hyn yn osgoi rhannu cymuned Conwy ac yn galluogi creu etholaeth arfordirol Conwy a Bae Colwyn, sydd yn naturiol, ynghyd a chadw Bangor, Bethesda, a Chaernarfon gyda'i gilydd. Byddai hefyd yn creu etholaeth wledig Merionnydd, Dyffryn Clwyd a Dyffryn Conwy.

Yn ail, os nad yw'r comisiwn yn fodlon creu etholaethau fel yr uchod, mae dal yn bosib datrys y broblem o rannu Rhyl a Phrestatyn oddi wrth eu gilydd. Mae'r etholaeth "Dwyrain Clwyd" fel y gynnigir gan y comisiwn yn annaturiol ac yn anffodus mae'n edrych fel cyfuniad o wahanol ardaloedd sydd ddim yn ffitio mewn i etholaethau cyfagos. Mae mynyddoedd Clwyd yn hollti'r etholaeth i ddwy hanner. Rwyf yn cytuno fod yn synhwyrol i roi'r Fflint gyda Alun Dyfrdwy, ond nid yw'n synhwyrol rhoi'r Wyddgrug gyda Rhuthun. Byddai'n well, yn fy marn i, i roi'r Wyddgrug gyda Rhyl a Phrestatyn, gan byddai hynny'n galluogi cadw'r trefi yno mewn un etholaeth a rhoi'r Wyddgrug mewn etholaeth heb fynyddoedd yn y canol. Byddai tynnu Rhyl allan o etholaeth "Gogledd Clwyd" yn golygu fod angen ehangu'r etholaeth yno, gellir gwneud hynny drwy'i ehangu i'r gorllewin. Gellir creu etholaeth arfordirol rhwng Conwy (neu cyn belled a Llanfairfechan, os credir fod hyn yn well) a Bae Cinmel. Gall de Sir Ddinbych wedyn fod yn ran o etholaeth gwledig, amaethyddol, yn seiliedig ar Ddyffryn Clwyd, Dyffryn Conwy, a Dyffryn Ogwen. Nid oes angen i Gorwen a Llangollen fod yn rhan o etholaeth Sir Drefaldwyn; gallent fod yn rhan o etholaeth sy'n cynwys rhan helaeth o Sir Ddinbych.

Felly credaf y byddai creu etholaeth Conwy arfordirol, etholaeth Sir Ddinbych arfordirol a Gorllewin Sir y Fflint, ac etholaeth Conwy mewndirol, Dinbych mewndirol, Dyffryn Ogwen a Bangor yn gwneud llawer o synwyr ac yn cadw ardaloedd tebyg i'w gilydd mewn etholaethau o natur mwy unffurf. Credaf byddai trafndiaeth yn ddigon

hwylus yn yr etholaethau yma gyda'r A55 yn cysylltu'r rhai arfordirol ac yr A5 yn cysylltu'r rhai mewndirol. Nodir hefyd fod gwasanaeth bws y T10 yn cysylltu Bangor hyd at Gorwen.

Yn olaf, rhaid i mi erfyn ar y comisiwn i beidio creu etholaeth sydd yn cynwys Caernarfon a'i alw'n "Dwyfor Meirionnydd." Mae'n glir fod "Dwyfor" a "Meirionnydd" yn cyfeirio at ddwy ardal penodol, a nad yw'n cynwys Caernarfon nac unrhywle yn ardal Caernarfon. Byddai rhoi pentref Rhiwlas mewn etholaeth o'r enw "Dwyfor Meirionnydd" yn sefyllfa anffodus iawn ac mae'n bosib na fyddai'r trigolion yn hunaniaethu gyda etholaeth sydd ddim yn eu cynnwys nhw yn ei enw. Mae Dwyfor yn dechrau filltiroedd maith oddi wrth Rhiwlas. Rwyf yn sylwi fod y comisiwn wedi cytuno rhoi'r enw "Bangor ac Aberconwy" i'r etholaeth yno am resymau tebyg ac mae hyn yn welliant mawr o'r enw "Aberconwy." Mae'r comisiwn wedi derbyn nifer o awgrymiadau am enwau etholaeth a fyddai'n cynwys Dwyfor, Meirionnydd ac ardal Caernarfon a dylai'r comisiwn ystyried yr cynigion yno yn hytrach na mynd am yr opsiwn gwael. Dylai'r comisiwn ystyried enwau fel "Gwynedd," "De a Gorllewin Gwynedd," a "Meirion, Dwyfor a Chaernarfon." Mae'n ddigon posib byddai'r trigolion yn cyfeirio at yr etholaeth fel "Gwynedd" beth bynnag fyddai'r enw swyddogol, a byddai'n synhwyrol i osgoi unrhyw gamddealltwriaethau drwy ddewis enw addas yn y lle cyntaf.

Diolch am ystyried fy sylwadau ac os gwelwch yn dda a fydddech yn edrych ar yr atodiadau i weld mapiau amgen sy'n dangos fy awgrymiadau. Mae nhw'n cynwys nifer o opsiynau gwahannol ar gyfer etholaeth Conwy arfordirol; etholaeth Gogledd Sir Ddinbych a Gorllewin Sir y Fflint, ac etholaeth Sir Ddinbych fewndirol, Conwy fewndirol, a Bangor. Mae'n cynwys hefyd opsiwn o gadw Bangor a Chaernarfon gyda'i gilydd.

The screenshot shows the 'Plan Builder' software interface. On the left, there is a sidebar with a list of constituencies for 'WalesPlan1'. The main area is a map of Wales with various constituencies highlighted in different colors. On the right, there is a panel for the 'Active Ward' and 'Active Plan Consistency'.

WalesPlan1	Seats	Electorate	Quota	Minimum	Maximum	Unassigned Avg	Assigned Avg
Unassigned	1753934						
1 Wales 001	70566	Yes					
2 Wales 002	69803	Yes					
3 Wales 003	76533	Yes					
4 Wales 004	75695	Yes					
5 Wales 005	77013	Yes					
6 Wales 006	75854	Yes					
7 Wales 007	70964	Yes					
8 Wales 008	0	-69724					
9 Wales 009	0	-69724					
10 Wales 010	0	-69724					
11 Wales 011	0	-69724					
12 Wales 012	0	-69724					
13 Wales 013	0	-69724					
14 Wales 014	0	-69724					
15 Wales 015	0	-69724					

Active Ward

Name	Gerlan	1696
Local Auth	Gwynedd	87241 (1.19 Quotas)
Current Const	Arfon	42657

Active Plan Consistency

Name	Wales 001
Electorate	70566
Up to 942 may be removed.	
Up to 6496 may be added.	
Colour	
Opacity	0.75
<input type="button" value="Update"/>	

Ward List

W05000148	Uwch Conwy	1276
W05000113	Betws-y-Coed	967
W05000116	Caerhun	1677
W05000121	Crwst	1581
W05000123	Eglsybach	1257
W05000128	Gower	850
W05000146	Trefriw	1026
W05000132	Llangernyw	1104
W05000149	Uwchaled	1139
W05000163	Llanhaearn-yn-...	1496

Design © 2020 Kevin Larkin. Contact [Twitter](#) To help keep this website available and up to date please consider making a contribution.

Plan Builder | New | Open | Save | Export | Settings | Tools

WalesPlan1

Seats: 31

Electorate: 2270262

Quota: 73234

Minimum: 69724

Maximum: 77062

Unassigned Avg: 73076

Assigned Avg: 73775

Unassigned: 1753834

1	Wales 001	76870	Yes
2	Wales 002	69803	Yes
3	Wales 003	70229	Yes
4	Wales 004	75695	Yes
5	Wales 005	77013	Yes
6	Wales 006	75854	Yes
7	Wales 007	70964	Yes
8	Wales 008	0	-69724
9	Wales 009	0	-69724
10	Wales 010	0	-69724
11	Wales 011	0	-69724
12	Wales 012	0	-69724
13	Wales 013	0	-69724
14	Wales 014	0	-69724
15	Wales 015	0	-69724

Liverpool

Gwynedd / Llanengan
Electorate: 847

Active Ward

Name: Llansannfrid 1814

Local Auth: Conwy 90528 (1,24 Quotas)

Current Const: Aberconwy 44852

Active Plan Consistency

Name: Wales 003

Electorate: 70229

Up to 505 may be removed.

Up to 6833 may be added.

Colour:

Opacity: 0.75

[Update](#)

W05000126	Glyn	3088
W05000112	Abergele Pensarn	1959
W05000118	Colwyn	3373
W05000143	Pentre Mawr	2861
W05000145	Towyn	1845
W05000124	Eirias	2800
W05000129	Kinmel Bay	4607
W05000130	Llanddulas	1353
W05000135	Llysfaen	1906
W05000144	Rhiw	4991

Design © 2020 Kevin Larkin. Contact: [Facebook](#) [Twitter](#) To help keep this website available and up to date please consider making a contribution.

Plan Builder | New | Open | Save | Export | Settings | Tools

WalesPlan1

Seats: 31

Electorate: 2270262

Quota: 73234

Minimum: 69724

Maximum: 77062

Unassigned Avg: 73076

Assigned Avg: 73775

Unassigned: 1753834

1	Wales 001	72380	Yes
2	Wales 002	69803	Yes
3	Wales 003	74719	Yes
4	Wales 004	75695	Yes
5	Wales 005	77013	Yes
6	Wales 006	75854	Yes
7	Wales 007	70964	Yes
8	Wales 008	0	-69724
9	Wales 009	0	-69724
10	Wales 010	0	-69724
11	Wales 011	0	-69724
12	Wales 012	0	-69724
13	Wales 013	0	-69724
14	Wales 014	0	-69724
15	Wales 015	0	-69724

Liverp

Gwynedd / Llanengan
Electorate: 847

Active Ward

Name: Llansannfrid 1814

Local Auth: Conwy 90528 (1,24 Quotas)

Current Const: Aberconwy 44852

Active Plan Consistency

Name: Wales 001

Electorate: 72380

Up to 2656 may be removed.

Up to 4682 may be added.

Colour:

Opacity: 0.75

[Update](#)


W05000148	Uwch Conwy	1276
W05000113	Betws-y-Coed	967
W05000116	Caerhun	1677
W05000121	Crwst	1581
W05000123	Eglwysbach	1257
W05000128	Gower	850
W05000146	Trefriw	1026
W05000132	Llangernyw	1104
W05000149	Uwchaled	1139
W05000163	Llanrhawdr-yn-n	1496

Design © 2020 Kevin Larkin. Contact: [Facebook](#) [Twitter](#) To help keep this website available and up to date please consider making a contribution.

WalesPlan1

Seats	31
Electorate	2270262
Quota	73234
Minimum	69724
Maximum	77062
Unassigned Avg	73076
Assigned Avg	73775

<input type="radio"/>	Unassigned	1753834	
<input type="radio"/>	Wales 001	70850	Yes
<input type="radio"/>	Wales 002	77013	Yes
<input type="radio"/>	Wales 003	75702	Yes
<input type="radio"/>	Wales 004	75695	Yes
<input type="radio"/>	Wales 005	70964	Yes
<input type="radio"/>	Wales 006	75854	Yes
<input checked="" type="radio"/>	Wales 007	70350	Yes
<input type="radio"/>	Wales 008	0	-69724
<input type="radio"/>	Wales 009	0	-69724
<input type="radio"/>	Wales 010	0	-69724
<input type="radio"/>	Wales 011	0	-69724
<input type="radio"/>	Wales 012	0	-69724
<input type="radio"/>	Wales 013	0	-69724
<input type="radio"/>	Wales 014	0	-69724
<input type="radio"/>	Wales 015	0	-69724



Active Ward

Name	Llansanffraid	1814
Local Auth	Conwy	90528 (1.24 Quotas)
Current Const	Aberconwy	44852

Active Plan Consistency

Name: Wales 007

Electorate: 70350

Up to 626 may be removed.

Up to 6712 may be added.

Colour:

Opacity: 0.75

W05000151	Conwen	1799
W05000152	Denbigh Central	1462
W05000153	Denbigh Lower	3483
W05000154	Denbigh Upper / Henllan	2265
W05000156	Efenechtyd	1321
W05000157	Llanarmon-yn-Ial / Llandegla	2033
W05000158	Llanbedr Dyffryn Clwyd / Llangynhafal	1170
W05000159	Llandrillo	931

BCW-10836 / [REDACTED] / Pontardawe

Mae gan Bontardawe gysylltiadau agos a chysylltiadau trafndiaeth da â Chastell-nedd ac Abertawe, felly dylai barhau i fod wedi'i chysylltu ag un o'r etholaethau hynny - gan mai Castell-nedd Port Talbot yw'r awdurdod lleol, Castell-nedd sy'n gwneud y synnwyr mwyaf.

BCW-10837 / [REDACTED] / Sir Fynwy

Annwyl Shereen,

Hoffwn fynegi drachefn barn pob cynghorydd Ceidwadol yng Nghyngor Sir Fynwy yn yr ymgynghoriad hwn ar y cynigion diwygiedig ar gyfer ffiniau seneddol.

Rydym yn cefnogi'n llwyr gynigion ar gyfer etholaeth yn Sir Fynwy ar y sail ei bod yn bodloni orau'r meini prawf a nodir yn Rheol 5, Atodlen 2. Bydd gwneud ffiniau'r awdurdod lleol a'r ffiniau etholaethol yn gydnaws yn gwella dealltwriaeth y cyhoedd, atebolrwydd a llywodraethant yn yr ardal.

A fyddech cystal â derbyn yr ymateb hwn ar ran grŵp Ceidwadwyr Cyngor Sir Fynwy yn ei gyfarwydd yn eich annog i gefnogi'r cynigion diwygiedig ar gyfer etholaeth Sir Fynwy.

Diolch ymlaen llaw am y gwaith sylweddol yr ydych chi a'ch cydweithwyr wedi'i wneud yn yr adolygiad hwn.

Cofion gorau,

[REDACTED]

[REDACTED]

Cynghorydd Sir am Lanfihangel Troddi a Thryleg Unedig

Arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr

Cyngor Sir Fynwy

Fel un a fu'n byw yng Nghanol Caerdydd ers dros 30 mlynedd, ysgrifennaf yn bersonol, a dymunaf wrthwynebu eich cynnig diwygiedig diweddar i symud ward Cathays i etholaeth De Caerdydd a Phenarth.

Yn ôl yr hyn a ddeallaf, bu cymunedau Cathays a Phlasnewydd yn yr un etholaeth, o ran ffiniau seneddol, dros y 70 mlynedd diwethaf, a gwn eu bod, ynghyd â wardiau eraill megis Pen-y-lan ac Adamsdown, yn rhannu llawer o gysylltiadau cymunedol.

Dyma rai enghreifftiau o'r cysylltiadau hyn:

Mae nifer fawr o boblogaeth myfyrwyr prifysgolion Caerdydd yn byw yn Cathays a Phlasnewydd.

Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays a Phlasnewydd.

Mae cysylltiadau cryf rhwng y ddwy ardal o ran trafndiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio.

Mae Cyngor Caerdydd wedi creu rheolau cynllunio yn benodol ar gyfer y ddwy ward, ac wedi dewis treialu cyflwyno terfynau cyflymder 20mya yn y ddwy ardal hyn o'r ddinas, i gychwyn.

Yng ngoleuni'r uchod a chysylltiadau cymunedol cryf eraill, a gan ystyried yr effaith y gallai newidiadau mewn etholaethau ei chael ar y cysylltiadau hyn, gobeithiaf y byddwch yn ailystyried eich cynnig diweddar yn hyn o beth.

Dymuniadau gorau

[REDACTED]

Y Comisiwn Ffiniau i Gymru

Trwy e-bost

15 Tachwedd 2022

Ynghylch cynigion diwygiedig y Comisiwn Ffiniau sy'n effeithio ar ward Cathays.

Rwy'n gwrthwynebu'r cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth.

I. Mae gan ward Cathays gysylltiadau agos â'r wardiau eraill yng nghymuned ehangach y Rhath; sef Pen-y-lan, Plasnewydd, ac Adamsdown.

Gofynnaf i'r Comisiwn ddychwelyd at y cynnig gwreiddiol lle mae ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd, gan adael ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth.

Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac mae'n golygu mai dim ond dwy ward sy'n symud o'u hetholaethau presennol, yn hytrach na'r pedair sy'n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig.

Mae ffiniau ward Cathays yn cynnwys rhwystrau naturiol ar ffurf Afon Taf a'r rheilffordd o Abertawe i Lundain. Mae'r rhain yn rhoi llinellau gwahanu clir oddi wrth Dde Caerdydd a Gorllewin Caerdydd.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, ac wedi sicrhau y cadwyd yr ardaloedd hynny o fewn yr un sedd Seneddol ers dros 60 mlynedd. Yn wir, yn yr arolygon blaenorol ers 2010, na weithredwyd, ni chynigiodd y Comisiwn erioed y dylid gwahanu Cathays a Phlasnewydd.

Yn ogystal, mae'r cynnig i symud Cathays i Dde Caerdydd yn cael sgil-ffeithiau ar ward gyfagos Adamsdown. Byddai Adamsdown wedi'i gwasgu rhwng dwy ward y cynnig eu gosod yn Ne Caerdydd a Phenarth, sef Cathays a'r Sblot, gan greu hollt annaturiol yn yr etholaeth. Byddai hyn yn achosi dryswch i unrhyw un sy'n ceisio deall ym mhle mae ffiniau'r etholaethau.

Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol â'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae'r preswylwyr yn dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus fel gofal sylfaenol ac ysgolion sydd wedi'u lleoli yn Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan, Cyncoed neu Gabalfa, ac nid yw'r un o'r rhain yn Ne Caerdydd. Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd. Mae'r plant sy'n mynychu ysgolion cynradd yn Cathays a



Phlasnewydd yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (wedi'i lleoli ym Mhen-y-lan) neu Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant yn ward Pentwyn. Hefyd, mae dalgylchoedd meddygon teulu yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd, ac yn rhannu pryderon a demograffeg tebyg.


Mae gan Brifysgol Caerdydd le amlwg yn yr etholaeth. Mae ganddi adeiladau cyfadranau yn Cathays a Phlasnewydd ac mae llety myfyrwyr wedi'i wasgaru ledled Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan.

Mae Cyngor Caerdydd o'r farn bod wardiau Cathays a Phlasnewydd wedi'u cydblethu gymaint fel bod rheolau cynllunio wedi'u pasio â'r unig nod o ymdrin â thai amlfeddiannaeth a byrddau asiantaethau gosod tai yn y ddwy ward hyn (<https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/>)

Mae Cathays, Plasnewydd, Adamsdown, Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath o amgylch ardal siopa Heol Albany a Heol y Ddinas.

Rwy'n gwerthfawrogi bod gennych waith anodd wrth greu 4 etholaeth o'r un maint yn fras, ond byddwn yn gofyn i chi ailedrych ar y cynnig diwygiedig.

Yr eiddoch yn gywir,



Sefyllfa Pontardawe mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer ffiniau.

Mae'n destun pryder mawr i mi ac i'r gymuned leol bod y cynigion ar gyfer Pontardawe yng Nghwm Tawe, sydd ar lawer ystyr, yn draddodiadol, yn dref noswyllo ar gyfer Abertawe a dim ond tua milltir o ffin Dinas a Sir Abertawe, yn cynnwys y dref mewn 'uwch-etholaeth' arfaethedig er nad oes ganddi unrhyw berthynas wirioneddol â chymunedau gwledig Aberhonddu a Maesyfed. Mae defnyddio enwadur poblogaeth mympwyol fel rheswm dros adlinio yn ymddangos yn annheg i'r boblogaeth ym Mhontardawe yn ogystal ag Aberhonddu a Maesyfed. Oni fyddai'n fwy dymunol i gynnwys Pontardawe yn etholaeth arfaethedig Canol a Gogledd Abertawe?

Nodaf hefyd nad yw'r newidiadau sy'n effeithio ar Abertawe yn gyson â Chasnewydd a Chaerdydd. Efallai y dylid defnyddio'r enwau Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, a Gorllewin Abertawe a Gŵyr, er cysondeb ag ailenwi, hyd y gwn i, Gorllewin Casnewydd ac Islwyn, a De Caerdydd a Phenarth.

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthyich.

BCW-10841 / [REDACTED] Cyngor Cymuned Cwm Aber / Caerffili

I bwy bynnag a fynno wybod,

Ar ran Cyngor Cymuned Cwm Aber, hoffem ddiolch i chi am wrando ar farn y cyhoedd ac am eich gwrthgynnig diwygiedig.

Cofion

[REDACTED]

Rwyf wedi byw yn etholaeth Canol Caerdydd dros y 40 mlynedd diwethaf. Yn wreiddiol, roeddwn yn byw yn Cathays cyn symud i Gyncoed.

Ysgrifennaf yn dilyn cyhoeddi'r cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ddydd Mercher 19 Tachwedd.

Ysgrifennaf ynghylch y cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth.

Rwy'n gwrthwynebu'r symudiad hwn. Mae ward Cathays wedi'i chysylltu'n agos â'r wardiau eraill yng nghymuned ehangach y Rhath; sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown.

Dylai'r Comisiwn ddychwelyd at y cynnig gwreiddiol, sef bod ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd, a ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth.

Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac mae'n golygu mai dim ond dwy ward sy'n symud o'u hetholaethau presennol, yn hytrach na'r pedair sy'n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, ac wedi sicrhau y cadwyd yr ardaloedd hynny o fewn yr un sedd Seneddol ers dros 60 mlynedd. Yn wir, yn yr arolygon blaenorol ers 2010, na weithredwyd, ni chynigiodd y Comisiwn erioed y dylid gwahanu Cathays a Phlasnewydd.

Derbyniodd y Comisiwn un cyflwyniad (gan breswlydd yn Altrincham) yn awgrymu'r newid hwn.

Mae'r Comisiwn wedi derbyn dwsinau o ymatebion (gan breswylwyr yng Nghaerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown o fewn cymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Derbyniaf fod Trowbridge yn ward heb fynediad ffordd uniongyrchol i'r Sblot. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn yr un sefyllfa yn union yn ei gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae gan y Sblot a Trowbridge ddegawdau o hanes fel rhan o'r un etholaeth, yn wahanol i'r datrysiad arfaethedig yn sedd newydd Rhondda.

Nid fu unrhyw sôn am symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth fel opsiwn yn y cynigion a'r prosesau ymgynghori blaenorol. Mae cyflwyno hyn fel 'fait accompli' ar y cam olaf yn ymddangos yn annidwyll, ac nid yn ysbryd y datganiad a wnaed gan Ysgrifennydd y Comisiwn, Shereen Williams, ar ddechrau'r broses. "Rydym yn benderfynol o ddatblygu'r argymhellion gorau posibl ar gyfer etholaethau newydd Cymru, a gwyddom mai'r unig ffordd o sicrhau hynny yw denu'r cyfranogiad cyhoeddus mwyaf rydym erioed wedi ei gael." "Mae hygyrchedd wrth galon beth rydym yn ceisio'i gyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru

lais holl bwysig i'w ychwanegu i'r sgwrs am ffiniau etholaethol Cymru, ac rydym am i bawb yng Nghymru gael cyfle i ddatgan eu barn."

Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol â'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae ei lleoli o fewn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn hollol hurt ac ni fydd yn hawdd i'r etholwyr ddeall hyn. Fodd bynnag, mae llawer o gysylltiadau cymunedol rhwng Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown:

Mae mwyafrif llethol y boblogaeth myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd wedi'u lleoli yn Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, ac mae neuaddau preswyl gerllaw yn Cathays a Phlasnewydd.

Diolch yn fawr i chi am ystyried y materion hyn.



BCW-10843 / Cyng. Lyndon Jones / Abertawe

Annwyl Syr/Foneddigion,

Cefnogaf yn llawn y cynnig i gadw cyfansoddiad etholaeth Gŵyr a Gorllewin Abertawe fel y'i crybwyllwyd yn eich cynigion cychwynnol, ac yn ogystal, cefnogaf osod enw Gŵyr yn gyntaf yn enw'r etholaeth, fel y cynigiais yng Ngwrandawriad y Comisiwn Ffiniau a gynhaliwyd yn Abertawe, a nodaf fod Cymdeithas Gŵyr yn cefnogi hyn hefyd.

Yr eiddoch yn gywir,

Lyndon Jones

CYNG. LYNDON JONES MBE

Arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Hoffwn fynegi fy mhryderon am y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau ar gyfer etholaeth Islwyn. Bu Islwyn yn etholaeth seneddol ers bron i 40 mlynedd ac mae ganddi hunaniaeth etholaethol wirioneddol. Mae'n cynnwys llawer o Fwrdeistref Sirol Caerffili gan gynnwys trefi'r Coed-duon, Trecelyn, Aber-carn a Rhisga.

Fodd bynnag, yn y cynigion diwygiedig diweddar, byddai'r etholaeth yn peidio â bodoli a byddai'r mwyafrif ohoni'n cael ei boddi yn sedd estynedig Gorllewin Casnewydd.

Roedd y cynigion gwreiddiol ym mis Medi 2021 i ddiwygio map etholiadol Gwent yn gweld Islwyn yn goroesi ac yn cael ei chyfuno â phedair ward yn ardal Caerffili. Byddai ychwanegu Ystrad Mynach, Sant Catwg, Llanbradach a Hengoed at Islwyn yn addas, o ystyried y cyd-gymunedau yn yr ardal. Cysylltir Hengoed a Maesycwmer gan y draphont sy'n llifo i mewn i Ystrad Mynach a Llanbradach, ac mae Sant Catwg yn ffinio â Phengam. Felly, mae'r cymunedau hyn yn ychwanegiad naturiol i'r etholaeth.

Yn lle hynny, byddai'r gwrthgynnig a fabwysiadwyd yn diwygio etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Byddai Pontllanfraith, Cefn Fforest, Maesycwmer a Phengam yn cael eu cymryd allan o Islwyn, gan greu sedd Caerffili, a byddai sedd Gorllewin Casnewydd ac Islwyn, fel y'i gelwir, yn cael ei chreu o'r hyn sy'n weddill o'r etholaeth bresennol.

Mae gwahanu Trecelyn oddi wrth y Coed-duon a Phontllanfraith yn gwneud dim synnwyr. Ceir cysylltiad annatod rhwng teuluoedd a chymunedau yn ardal Pontllanfraith, Trecelyn a'r Coed-duon. Nid oes unrhyw ysgol gynradd yn Islwyn sy'n bwydo ysgolion uwchradd y tu allan i'r etholaeth. Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Islwyn yn Oakdale, sy'n ysgol newydd, yn cynnwys ysgolion ym Mhontllanfraith. O ran trafnidiaeth, nid oes cyswllt rheilffordd rhwng Islwyn a Chasnewydd.

Fel un o breswylwyr Islwyn sy'n bryderus am hyn, rwy'n gwrthwynebu'r cynigion newydd ac rwy'n gwrthwynebu'r penderfyniad i ddileu Islwyn fel etholaeth. Nid wyf yn dymuno i'm tref breswyl gael ei chynnwys yng Ngorllewin Casnewydd. Nid wyf yn teimlo bod digon o gysylltiadau lleol, hanesyddol neu ddiwylliannol pwysig â Gorllewin Casnewydd i gyfiawnhau colli etholaeth Islwyn.

**BCW-10845 / [REDACTED] Swyddog Canlyniadau ar gyfer Sir Gaerfyrddin /
Caerfyrddin**

Prynhawn da,

Atodaf lythyr mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 18 Hydref 2022.

Cofion cynnes,

[REDACTED]



Eich cyf / Your ref:

Fy nghyf / My ref:

Dyddiad / Date: 15.11.2022

Gofynner am / Please ask for:

Llinell Uniongyrchol / Direct Line:

E-bost / E-mail:

Ty Hastings / Hastings House
Llys Ffitalan / Fitzalan Court
Caerdydd / Cardiff
CF24 0BL

Annwyl / Dear Ms. Shereen Williams,

**AROLWG 2023 O ETHOLAETHAU
SENEDDOL YNG NGHYMURU –
CYNIGION DIWYGIEDIG**

Fel Swyddog Cofrestru Etholiadol/Swyddog Canlyniadau ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin, hoffwn gynnig y sylwadau canlynol o ran Adolygiad o Etholaethau Seneddol yng Nghymru 2023.

Er fy mod yn derbyn bod trothwy etholwyr y Comisiwn Ffiniau yn golygu nad yw cynnal y sefyllfa bresennol yn opsiwn, rwy'n falch o weld eich bod wedi ailystyried lleoli Ward Etholiadol Llangynnwr a'i chadw yn etholaeth newydd Caerfyrddin.

Felly, o ran yr argymhellion ynghylch Sir Gaerfyrddin, rwyf wedi ystyried y cynigion a gyflwynwyd gan y Comisiwn ac rwy'n eu cefnogi.

**THE 2023 REVIEW OF
PARLIAMENTARY CONSTITUENCIES IN
WALES - REVISED PROPOSALS**

As Electoral Registration Officer/Returning Officer for Carmarthenshire County Council, I would like to offer the following comments with regards the 2023 Review of Parliamentary Constituencies in Wales.

Whilst I accept that the Boundary Commission's electorate threshold means that maintaining the status quo is not an option, I am pleased to see that you have re-considered the positioning of the Electoral Ward of Llangunnor and retained this in the new Carmarthen Constituency.

Hence with regards Carmarthenshire's proposals, I have considered and support the proposals put forward by the Commission.

Yn awir / Yours sincerely

Wendy Walters
Returning Officer

Wendy Walters

Tŷ Hastings
Llys Ffitalan
Caerdydd
CF24 0BL



Hastings House
Fitzalan Court
Cardiff
CF24 0BL

E-bost:
cffg@ffiniau.cymru
www.comffin-cymru.gov.uk

(029) 2046 4819
Ffacs/Fax (029) 2046 4823

E-mail:
bcw@boundaries.wales
www.bcomm-wales.gov.uk

18 October 2022

Dear [REDACTED]

THE 2023 REVIEW OF PARLIAMENTARY CONSTITUENCIES IN WALES – REVISED PROPOSALS

Please find enclosed 2 copies of the Commission's report containing revised proposals for changes to Parliamentary constituencies in Wales, also enclosed is 2 copies of the Assistant Commissioners report. Enclosed separately are A0 maps of the revised proposals which will concern your Authority for your information. This report is to be published on 19 October 2022 and until that time a press embargo is in operation. The Commission ask that you respect this embargo.

Representations about the revised proposals should be made within 4 weeks of publication on 19 October 2022. As revised proposals are on an all-Wales basis, the Commission ask that all representations make it clear which area or areas they concern. All representations received by the Commission will be acknowledged. The representation period will end on 15 November 2022.

I also enclose 3 copies of both reports and any relevant A0 maps for deposit and I would be grateful if you would make these available for inspection by the public from 19 October 2022 until further notice at the following address:

Customer Service Centre, Unit A, St Catherine's Walk, Carmarthen, SA31 1GA
Electoral Services, Block 4, Parc Myrddin, Richmond Terrace, Carmarthen, SA31 1HQ
Llanelli Library, Llanelli SA15 3AS

Further copies of this report are available by accessing the Commission's web site at www.bcomm-wales.gov.uk

Yours sincerely


[REDACTED]
Shereen Williams
Secretary

Tŷ Hastings
Llys Ffitalan
Caerdydd
CF24 0BL




Hastings House
Fitzalan Court
Cardiff
CF24 0BL

E-bost:
cffg@ffiniau.cymru
www.comffin-cymru.gov.uk

 (029) 2046 4819
Ffacs/Fax (029) 2046 4823

E-mail:
bcw@boundaries.wales
www.bcomm-wales.gov.uk



18 Hydref 2022

Annwyl 

AROLWG 2023 O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRO – CYNIGION DIWYGIEDIG


Amgaeir gopi 2 adroddiad y Comisiwn yn cynnwys cynigion diwygiedig am newidiadau i etholaethau seneddol yng Nghymru, hefyd amgaeir 2 copi o adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol. Ar wahân, danfonir fapiau A0 sy'n dangos cynigion diwygiedig y Comisiwn a fydd yn effeithio ar eich Cyngor am eich wybodaeth. Cyhoeddir yr adroddiad ar 19 Hydref 2022 a than hynny ni chaniateir sôn am yr adroddiad yn y wasg. Gofynna'r Comisiwn i chi barchu'r embargo hwn.

Dylid cyflwyno sylwadau am y cynigion diwygiedig o fewn 4 wythnos ar ôl y cyhoeddiad ar 19 Hydref 2022. Gan fod y cynigion diwygiedig wedi'u cyhoeddi ar gyfer pob ardal o Gymru ar yr un pryd, gofynna'r Comisiwn i chi nodi'n glir pa ardal/ardaloedd y mae'r sylwadau yn cyfeirio ati/atynt. Bydd y Comisiwn yn cydnabod yr holl sylwadau y bydd yn eu derbyn. Daw'r cyfnod ar gyfer sylwadau i ben ar 15 Tachwedd 2022.

Amgaeaf, hefyd, 3 copi o'r ddau adroddiad a'r mapiau A0 perthnasol i'w hadneuo a byddwn yn ddiolchgar pe baech yn sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd o 19 Hydref 2022, nes y clywir yn wahanol, yn y cyfeiriad canlynol:

Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Caerfyrddin, Unit A, St Catherine's Walk Caerfyrddin, SA31 1GA
Gwasanaethau Etholiadol, Bloc 4, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ
Llyfrgell Llanelli, Llanelli SA15 3AS

Gellir cael rhagor o gopiau o'r adroddiad ar wefan y Comisiwn yn www.comffin-cymru.gov.uk.
Yn gywir



Shereen Williams
Ysgrifennydd

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commission welcomes correspondence in English or Welsh

**BCW-10846 / [REDACTED] Grŵp Annibynnol Cyngor Bwrdeistref Sirol
Wreccsam / Wreccsam**

Noswaith dda

Atodaf lythyr gan Grŵp Annibynnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ynghylch yr uchod.

Cofion cynnes

[REDACTED]

Cynghorydd / [REDACTED]

Arweinydd y Cyngor/Leader of the Council
Y Cynghorydd/Councillor [REDACTED]



Trwy e-bost

Y Comisiwn Ffiniau i Gymru
(bcw@boundaries.wales)

Eich Cyf/Your Ref
Ein Cyf/Our Ref
Dyddiad/Date
Gofynner am/Ask for
[REDACTED]

MP
15 Tachwedd 2022
[REDACTED]

Annwyl Syr/Madam

Arolwg y Comisiwn Ffiniau Seneddol

Mae Aelodau Grŵp Annibynnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam yn gwrthwynebu'n gryf y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau a fyddai'n gweld wardiau etholiadol fel Esclusham, Pant, Ponciau, Rhos a Johnstown yn symud i Faldwyn a Glyndŵr.

Mae Aelodau'r Grŵp Annibynnol yn cytuno y dylai'r wardiau uchod aros yn rhan o Wreccsam a pheidio â chael eu gwthio i etholaeth Maldwyn/Glyndŵr.

Mae gan y wardiau hyn gysylltiadau agos iawn â Wreccsam, yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol, a'i gweithrediadau, ei digwyddiadau a'i phobl.

Yr eiddoch yn gywir

Cynghorydd [REDACTED]
Arweinydd y Grŵp
Annibynnol

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.*

*We welcome correspondence in Welsh.
We will respond to any correspondence in Welsh and this will not lead to any delay.*

BCW-10847 / [REDACTED] Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful / Merthyr Tudful

Prynhawn da,

Bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ystyried y cynigion diwygiedig ar gyfer Ffiniau Etholaethau Seneddol 2023 yn y Cyngor Llawn ac o fewn eu grwpiau gwleidyddol, a hoffai wneud y cyflwyniadau canlynol:

1. Enw'r Etholaeth fydd Merthyr Tudful ac Aberdâr / Merthyr Tydfil and Aberdare, sef enw hanesyddol yr etholaeth dros 120 mlynedd yn ôl; ac
2. Un unol â'r cynllun atodedig:
 - Diwygio'r cyrion gogleddol i ddilyn y ffiniau naturiol ar ddechrau cymoedd Taf Fechan a Thaf Fawr sy'n cydgyfeirio i greu Merthyr Tudful. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r hyn y mae Merthyr Tudful yn ei weld fel y terfyn priodol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, lle mae Garwnant a Rheilffordd Mynydd Brycheiniog yn rhan o Ferthyr Tudful yn hytrach na Phowys; a
 - Diwygio'r ffin orllewinol i ddilyn llinell ffordd yr A4059 i'r fan lle mae'n cwrdd â'r A470; yn hytrach na hepgor 1.8 milltir olaf yr A4059

Cofion

[REDACTED]

Gwasanaethau Democraidd / Democratic Services




Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

14.11.22


I bwy bynnag a fynno wybod,

Mae'n bleser mawr gennym amgáu ymateb y Ceidwadwyr Cymreig i'ch cynigion diwygiedig, a gefnogwn yn llawn.

Yr eiddoch yn gywir,



 Cadeirydd y Ceidwadwyr Cymreig



**Ymateb y Ceidwadwyr Cymreig i'r Cynigion Diwygiedig ar gyfer Ffiniau
Seneddol yng Nghymru**

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Nodwn fod y Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r cynigion cychwynnol, gan newid cyfansoddiad 22 o'r etholaethau a chynnig newid naw enw.
- 1.2 Nodwn hefyd eu bod wedi gwrthod llawer o argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, a gynigiodd newid cyfansoddiad 26 o'r etholaethau.
- 1.3 Credwn fod y Comisiwn wedi gwrandao ar y sylwadau ac wedi gwneud newidiadau sy'n adlewyrchu'r rhain hyd eithaf eu gallu.
- 1.4 Er na chefnogwn yr holl argymhellion, derbyniwn y gallai ein dadleuon fod wedi arwain at anhawsterau mewn etholaethau cyfagos.
- 1.5 Felly, derbyniwn y cynigion diwygiedig yn llawn a gobeithiwn y bydd y Comisiwn yn eu cadarnhau fel eu cynigion terfynol maes o law.
- 1.6 Byddwn yn edrych ar y 5 ardal a ddefnyddiwyd gennym yn ystod ein cyflwyniadau ac yn rhoi sylwadau ar y newidiadau arfaethedig. Byddwn yn dweud yn gyntaf pam y credwn fod y Comisiwn yn gywir i wrthod adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol yn y mwyafrif o'r etholaethau.

2. ADRODDIAD Y COMISIYNWYR CYNORTHWYOL

2.1 Credwn fod y Comisiwn yn gywir i wrthod cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol mewn 20 o'r 32 etholaeth arfaethedig.

2.2 Fel y dywed y Comisiynwyr Cynorthwyol yn briodol ym mharagraff 9 yr adroddiad, "Mater i'r Comisiynwyr yn gyfan gwbl yw penderfynu p'un a ddylai'r cyfryw newidiadau gael eu mabwysiadu".

2.3 Credwn fod y Comisiynwyr Cynorthwyol wedi ceisio llunio map newydd nad yw'n adlewyrchu'r cynigion cychwynnol na'r map presennol o etholaethau.

2.4 Trwy gydol y broses hon, rydym wedi ceisio cymhwyso'r Rheolau ar gyfer aiddosbarthu seddau, yn arbennig Rheol 5 Atodlen 2 sy'n pennu nifer o ffactorau y gall y Comisiwn eu hystyried:

4.a) Ystyriaethau Daearyddol Arbennig

4.b) Ffiniau Llywodraeth Leol

4.c) Etholaethau Presennol

4.d) Cysylltiadau Lleol

4.e) Anghyfleustra

2.5 Credwn o ran Rheol 5 (1) (c) a (d) fod argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol yn sylweddol waeth na'r argymhellion cychwynnol a'r argymhellion diwygiedig.

2.6 Rydym wedi mesur yr etholaethau presennol yn ôl nifer yr etholwyr a gedwir yn eu hetholaethau presennol. Mae ein tabl isod yn dangos y gymhariaeth rhwng y cynigion diwygiedig, y cynigion cychwynnol, a chynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol.

	Cynigion Cychwynnol	Cynigion Diwygiedig	Cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol
Nifer yr etholwyr a gedwir yn eu hetholaethau presennol	1584164	1603683	1519443
% o gyfanswm nifer yr etholwyr, sef 2,270,262	69.7%	70.6%	66.9%

- 2.7 Mae hyn yn dangos bod cynigion diwygiedig y Comisiwn yn gwella'r sefyllfa fel bod 19,519 yn llai o etholwyr yn symud i etholaeth wahanol.
- 2.8 Yng nghynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol, byddai 64,721 yn fwy o etholwyr yn symud nag yn y cynigion cychwynnol, ac 84,240 yn fwy o etholwyr nag yn y cynigion diwygiedig.
- 2.9 Yn ogystal, yn y cynigion diwygiedig, mae'r Comisiwn yn cadw 15 o etholaethau presennol o fewn yr un etholaeth. Mewn chwech o'r achosion hyn, mae cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol yn wahanol (Aberafan, Aberconwy, Gogledd Caerdydd, Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn, a Wrecsam).
- 2.10 Felly, credwn fod y Comisiwn wedi gwella'r sefyllfa o dan Reol 5 (1) (c). Byddai cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol wedi'i gwaethygu'n sylweddol.
- 2.11 Mewn perthynas â chysylltiadau lleol a nodir yn Rheol 5 (1) (d), credwn fod y cynigion diwygiedig wedi'u gwella. Er enghraifft, wrth gynnwys Bymbo a Mwynglawdd yn Wrecsam yn hytrach nag Alun a Glannau Dyfrdwy, cynnwys Nelson yng Nghaerffili yn hytrach na Merthyr Tudful, cynnwys Pentir â Bangor, ac Aberaman ag Aberdâr.
- 2.12 Nodwn fod adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol yn ymdrin â nifer o'r rhain. Canlyniad eu cynigion yw torri cysylltiadau pellach, er enghraifft yn Wrecsam, yn y Barri, ac yng Nghwm Nedd.
- 2.13 Un o gryfderau'r cynigion cychwynnol a'r cynigion diwygiedig yw na chaiff unrhyw gymunedau eu rhannu rhwng etholaethau, ond byddai'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn rhannu cymunedau Abergele a Threlales.
- 2.14 Credwn fod argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol yn gwaethygu'r sefyllfa o dan Reol 5 (1) (d) 'Cysylltiadau Lleol', ond mae cynigion diwygiedig y Comisiwn yn gwella'r sefyllfa o dan Reol 5 (1) (d).

2.15 Felly, cefnogwn y cynigion diwygiedig a gwrthodwn yn llwyr adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol lle bynnag y mae gwahaniaethau rhyngddynt.

3. DE DDWYRAIN CYMRU

3.1 Mae'r ardal hon yn cynnwys awdurdodau lleol Sir Fynwy, Torfaen, Caerffili, Casnewydd a Blaenau Gwent. Mae ganddynt hawl i chwe etholaeth yn union.

3.2 Nodwn fod yr ardal hon yn cynrychioli hanner yr etholaethau y mae adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol a'r Comisiwn yn cytuno arnynt. Credwn fod consensws eang o blaid y cynigion yn yr ardal hon.

3.3 Rydym yn croesawu'n arbennig y cynnig i gynnwys Nelson yn y grŵp hwn sy'n gysylltiedig ag Ystrad Mynach yn yr etholaeth bresennol, sef Caerffili. Mae hyn yn gwella'r sefyllfa o ran Rheol 5 (1) (b), (c) a (d).

3.4 Nodwn nad oes newidiadau i bedair etholaeth ers y cynigion cychwynnol, sef Blaenau Gwent a Rhymni, Sir Fynwy, Dwyrain Casnewydd, a Thorfaen.

3.5 Nodwn gytundeb eang y dylai'r etholaethau hyn gadw at y cynigion cychwynnol. Nodwn gefnogaeth y Comisiwn a'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn hyn o beth. Yn wir, mae hyn yn cynrychioli pedair o'r chwe etholaeth lle na argymhellwyd unrhyw newid gan y Comisiynwyr Cynorthwyol.

3.6 Nodwn fod mwy o bryder ynghylch etholaethau arfaethedig Gorllewin Casnewydd, a Chaerffili ac Islwyn.

3.7 Er ein bod yn cefnogi'r rhain, ar wahân i gynnwys Nelson ag Islwyn, derbyniwn fod y penderfyniad yn weddol gytbwys, ac felly cefnogwn y cynigion ar gyfer Caerffili, a Gorllewin Casnewydd ac Islwyn. Credwn fod cynnwys ward Nelson yng Nghaerffili, fel y mae ar hyn o bryd, yn gwneud synnwyr llwyr ac yn cyfiawnhau'r newid hwn.

3.8 Felly, cefnogwn yn llawn y cynigion diwygiedig ar gyfer y chwe etholaeth yn y grŵp hwn.

4. MORGANNWG GANOL A DE MORGANNWG

4.1 Mae'r ardal hon yn cynnwys awdurdodau lleol Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd, a Bro Morgannwg.

4.2 Nodwn nad yw'r ardal hon yn cynnwys ward Nelson yn y cynigion diwygiedig. Fodd bynnag, nodwn yn y cynigion diwygiedig ei bod yn cynnwys tair ward o fwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Cefnogwn y cynnig hwn fel yr opsiwn lleiaf gwael a lleiaf aflonyddol.

4.3 Nodwn fod gan yr ardal hon hawl i wyth etholaeth. Cefnogwn yr holl gynigion diwygiedig yn yr ardal hon. Felly, cefnogwn etholaethau arfaethedig Dwyrain Caerdydd, Gogledd Caerdydd, De Caerdydd a Phenarth, Gorllewin Caerdydd, Merthyr Tudful a Chynon Uchaf, Pontypridd, Rhondda, a Bro Morgannwg.

4.4 Nodwn fod y Comisiwn a'r Comisiynwyr Cynorthwyol ill dau yn cefnogi cyfansoddiad etholaeth Merthyr Tudful a Chynon Uchaf, ond maent yn cynnig enwau gwahanol.

4.5 Cefnogwn gyfansoddiad yr etholaeth hon yn llawn, a chredwn ei bod yn bwysig cydnabod Cwm Cynon yn yr enw Cynon Uchaf.

4.6 Yn arbennig, cefnogwn hepgor ward Nelson a chynnwys dwy ward Aberaman. Mae hyn yn adlewyrchu'r cysylltiadau agos rhwng Aberaman ac Aberdâr ac mae'r etholaeth yn cydymffurfio'n well â Rheolau 5 (1) (b) a (d).

4.7 Cefnogwn etholaeth ddiwygiedig Pontypridd gan hepgor wardiau Aberaman ac ychwanegu wardiau Llanharan, Llanhari a Brynna. Mae hyn yn creu etholaeth gydlynus ac rydym yn ei chefnogi.

4.8 Nodwn y newidiadau i etholaeth Rhondda ac fe'u cefnogwn. Nodwn ei bod yn parhau i gynnwys holl etholaeth bresennol Rhondda, sy'n golygu ei bod yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) (c).

- 4.9 Gwerthfawrogwn ychwanegu'r tair ward sy'n ffurfio cymuned Pencoed, sef Penprysg, Hendre a Felindre, at etholaeth Rhondda; er nad oes ganddynt lawer o gysylltiad ag etholaeth Rhondda, credwn fod hyn yn dderbyniol.
- 4.10 Ar hyn o bryd, mae'r tair ward hyn, sydd ym Mwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr, yn rhan o etholaeth Ogwr, ac mae'r cynigion diwygiedig yn awgrymu ychwanegu Gilfach Goch, sydd hefyd yn etholaeth Ogwr, gan cynnal cysylltiad etholaethol sy'n bodoli.
- 4.11 Mantais y trefniant hwn yw ei fod yn osgoi rhannu unrhyw gymuned ac mae'n galluogi cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr gyfan yn yr un etholaeth.
- 4.12 Credwn mai dyma'r opsiwn lleiaf gwael ac y byddai unrhyw drefniant arall yn fwy aflonyddol. Pe bai cefnogaeth o blaid rhoi'r enw Rhondda a Phencoed i'r etholaeth, ni fyddem yn gwrthwynebu.
- 4.13 Nodwn fod y Comisiwn wedi newid dwy ward yn unig yng Nghaerdydd. Mae hyn er mwyn mynd i'r afael â'r anghysondeb yn y cynnig cychwynnol nad oedd ffin ar y tir rhwng ward y Sblot a ward Trowbridge.
- 4.14 Felly, cefnogwn gynnwys ward Trowbridge yn Nwyrain Caerdydd (sy'n enw mwy priodol na Chanol Caerdydd) a chynnwys ward Cathays yn Ne Caerdydd a Phenarth.
- 4.15 Nodwn nad yw'r Comisiwn yn gwneud unrhyw newidiadau i etholaethau Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd, sydd ill dwy yn seiliedig ar yr etholaethau presennol ac felly'n cydymffurfio'n gryf â Rheol 5 (1) (c).
- 4.16 Nodwn y byddai'r Comisiynwyr Cynorthwyol wedi gwneud newidiadau llawer mwy radical yng Nghaerdydd, ac nid ydym yn eu cefnogi. Nodwn fod cefnogaeth sylweddol i'r cynigion cychwynnol yng Nghaerdydd.

4.17 Derbyniwn etholaeth Bro Morgannwg fel y'i cynigiwyd yn y cynigion cychwynnol.

Byddai'n well gennym weld ward Dinas Powys yn cael ei chynnwys, ond derbyniwn y byddai hyn wedi achosi mwy o aflonyddwch yng Nghaerdydd.

4.18 Nodwn y byddai'r Comisiynwyr Cynorthwyol wedi gwneud newidiadau radical yn yr ardal hon a fyddai'n cynnwys rhannu tref y Barri rhwng dwy etholaeth, sy'n torri Rheol 5 (1) (c) a (d) yn ddifrifol.

4.19 Felly, cefnogwn yn llawn yr wyth etholaeth yn y grŵp hwn.

5. GORLLEWIN MORGANNWG, ac ABERHONDDU A MAESYFED

5.1 Mae'r ardal hon yn cynnwys awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, ac Abertawe; ac Aberhonddu a Maesyfed ym Mhowys.

5.2 Mae gan yr ardal hon hawl i chwe etholaeth, a chefnogwn y cynigion diwygiedig ym mhob un o'r etholaethau hyn.

5.3 Rydym eisoes wedi cefnogi'r cynnig i gynnwys tair ward Pencoed yn Rhondda fel yr opsiwn lleiaf gwael.

5.4 Mae hyn yn galluogi cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr gyfan mewn un etholaeth. Roedd llawer o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu rhannu tref Pen-y-bont ar Ogwr rhwng dwy etholaeth. Rydym yn falch bod y comisiwn wedi unioni hyn wrth gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr gyfan yn etholaeth Pen-y-bont. Mae hyn yn gwella'r sefyllfa o dan Reol 5 (1) (c) a (d).

5.5 Nodwn na fyddai'r Comisiynwyr Cynorthwyol wedi uno Pen-y-bont ar Ogwr, ac y byddent wedi rhannu cymuned Trelales. Byddai hyn yn annerbyniol a byddai'n torri cysylltiadau lleol, sef toriad difrifol o Reol 5 (1) (d).

5.6 Nodwn fod cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr gyfan yn yr etholaeth yn galluogi cynnwys holl etholaeth bresennol Aberafan yn etholaeth arfaethedig Aberafan Porthcawl.

5.7 Cefnogwn gynnwys tref Sgiwen (sef tair ward Coedffranc) yn yr etholaeth hon lle mae wedi'i chynnwys ar hyn o bryd, gan wella'r sefyllfa o dan Reol 5 (1) (c).

5.8 Felly, cefnogwn y cynigion diwygiedig lle mae Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn hepgor tref Sgiwen ond yn cynnwys ward Glandŵr yn Abertawe sydd yn yr un etholaeth ac sydd â chysylltiadau agos â wardiau Llansamlet, Bôn-y-maen a St Thomas.

- 5.9 Yn ogystal, cefnogwn roi enw Castell-nedd yn gyntaf yn enw'r etholaeth. Rydym hefyd yn gwrthod adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol a fyddai wedi rhannu Cwm Nedd yn fympwyol rhwng dwy etholaeth.
- 5.10 O ganlyniad, cefnogwn etholaeth Canol a Gogledd Abertawe, sef yr etholaeth a gynigir ond gan hepgor ward Glandŵr.
- 5.11 Cytunwn yn llwyr â'r Comisiwn ym mharagraff 28.6 lle maent yn gwrthod adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn dweud eu bod o'r farn ei bod yn "amhriodol creu etholaethau ar sail ffydd, gwahaniaethau hiliol neu statws addysgol".
- 5.12 Cefnogwn yn llwyr y cynnig diwygiedig i gadw cyfansoddiad etholaeth Gŵyr a Gorllewin Abertawe fel y mae yn y cynigion cychwynnol. Hefyd, cefnogwn roi Gŵyr yn gyntaf yn enw'r etholaeth, fel y'i cefnogir gan Gymdeithas Gŵyr.
- 5.13 Credwn mai un o gryfderau'r cynnig hwn yw ei fod yn uno cymuned y Mwmbwls mewn un etholaeth. Cefnogwn y Comisiwn i gynnal y safbwynt hwnnw a gwrthodwn gynigion eraill i'w rhannu rhwng dwy etholaeth.
- 5.14 Cefnogwn yn llwyr y penderfyniad gan y Comisiwn i beidio â gwneud unrhyw newidiadau i gyfansoddiad etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe. Hefyd, cefnogwn yn llwyr y cynnig i newid yr enw i gynnwys Cwm-tawe er mwyn cynrychioli ardal Ystradgynlais, sydd yn yr etholaeth bresennol, a'r ardaloedd sydd i'w hychwanegu ati, megis Ystalyfera a Phontardawe.
- 5.15 Cefnogwn yn llwyr yr esboniad gan y Comisiwn yn 5.6, "Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r dref fwyaf yn etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire yw Ystradgynlais, sy'n rhan o Gwm Tawe ac sydd â chysylltiadau da ag ardaloedd Pontardawe ac Ystalyfera* y bwriedir eu hychwanegu at yr etholaeth bresennol. Mae'r holl gymunedau hyn o fewn Cwm Tawe ac maen nhw'n debyg o ran natur ac yn rhannu cysylltiadau da. Ystyriodd y

Comisiwn y trefniadau amgen a gyflwynwyd, ond mae'n credu bod y cynnig cychwynnol yn tarfu lleiaf ar draws yr etholaethau amgylchynol sydd, yn ei dro, yn creu 'effaith ddomino' ar etholaethau pellennig eraill ledled Cymru."

5.16 Cytunwn yn gryf â'r datganiad hwnnw ac fe'i cefnogwn yn gryf, a nodwn yn arbennig y byddai dewis amgen y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cael sgil-ffeithiau sylweddol ledled gweddill Canolbarth a Gogledd Cymru a fyddai, yn ein barn ni, yn llawer mwy aflonyddol ac annerbyniol.

5.17 Felly, cefnogwn yn llawn y chwefror etholaeth yn y grŵp hwn.

*Yn yr adroddiad, maen nhw'n enwi Ystradgynlais, ond credwn eu bod yn golygu Ystalyfera.

6. DYFED

6.1 Mae'r ardal hon yn cynnwys awdurdodau lleol Ceredigion, Sir Gâr a Sir Penfro. Mae gan yr ardal hawl i bedair etholaeth yn union, a chefnogwn y mân newidiadau i'r etholaethau hyn.

6.2 Nodwn mai dyma'r ardal arall y mae'r Comisiwn a'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn cytuno arni.

6.3 Nodwn y mân newidiadau i'r cynigion cychwynnol sy'n gwneud addasiadau i bob un o'r etholaethau arfaethedig.

6.4 Cefnogwn yn llwyr y cynnig i gyfnewid un ward rhwng etholaethau arfaethedig Caerfyrddin a Llanelli, sef cyfnewid ward Llangynnwr rhwng y ddwy etholaeth.

6.5 Roedd cefnogaeth eang i'r addasiad hwn a oedd yn dangos y cysylltiadau agos â ward Caerfyrddin.

6.6 Er nad oeddem wedi argymhell y newidiadau rhwng Ceredigion Preseli, a Chanol a De Sir Benfro, rydym yn fodlon eu derbyn.

6.7 Mae hyn yn symud dim ond pedair ward â Maenclochog i Geredigion Preseli, a chynnwys Tyddewi, Solfach a Threletert yng Nghanol a De Sir Benfro.

6.8 Derbyniwn mai mân welliant yw hwn o ran cysylltiadau lleol a chysylltiadau cymunedol.

6.9 Felly, cefnogwn yn llawn y pedair etholaeth arfaethedig yn yr ardal hon.

7. GOGLEDD CYMRU A MALDWYN

7.1 Mae'r ardal hon yn cynnwys awdurdodau lleol Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, yn ogystal â Maldwyn, sy'n rhan o Bowys.

7.2 Nodwn fod gan yr ardal hon hawl i saith etholaeth. Credwn fod y Comisiwn wedi gwrandao ar y dadleuon ynghylch cysylltiadau lleol yn yr ardal hon ac wedi cynnig trefniant synhwyrol sy'n adlewyrchu'r cysylltiadau lleol hyn.

7.3 Nodwn fod y Comisiynwyr Cynorthwyol wedi cynnig newidiadau radical a fyddai wedi rhannu Maldwyn, yn ogystal â pheidio â chynnwys holl etholaethau presennol Aberconwy a Wrecsam mewn un etholaeth. Felly, byddai'r newid wedi bod yn llawer gwaeth o ran Rheol 5 (1) (c). Yn ogystal, byddent wedi rhannu cymuned Abergele gan dorri Rheol 5 (1) (d). Felly, credwn fod y Comisiwn yn gywir i wrthod argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer holl etholaethau Gogledd Cymru.

7.4 Cefnogwn y mân newid i etholaeth Dwyfor Meirionnydd. Roedd cefnogaeth eang o blaid hepgor ward Pentir fel y byddai Bangor yn unedig, ac mae'n welliant amlwg o ran Rheol 5 (1) (d).

7.5 Derbyniwn fod dadleuon cryf na ddylai ardal cyngor tref Bae Colwyn gael ei rhannu ar draws etholaethau.

7.6 Felly, derbyniwn y newidiadau i etholaeth arfaethedig Bangor Aberconwy fel yr opsiwn lleiaf gwael. Hefyd, cefnogwn yn llwyr y cynnig i gynnwys enw Bangor yn enw'r etholaeth.

7.7 O ganlyniad, cefnogwn etholaeth arfaethedig Gogledd Clwyd sy'n ymestyn ar hyd arfordir Gogledd Cymru o Landrillo-yn-Rhos i'r Rhyl, ynghyd â Dinbych a Llanelwy. Credwn fod hon yn etholaeth sydd wedi'i llunio'n dda ac fe'i cefnogwn.

7.8 Nodwn y byddai'r Comisiynwyr Cynorthwyol wedi rhannu cymuned Abergele, gan dorri cysylltiadau lleol pwysig a mynd yn groes i Reol 5 (1) (d). Felly, credwn fod y Comisiwn yn gywir i wrthod eu cynigion.

7.9 Rydym yn cefnogi'n llwyr etholaeth arfaethedig Dwyrain Clwyd, yn ei chyfansoddiad a'i henw.

7.10 Cytunwn â'r Comisiwn "bod gan Ruthun fwy yn gyffredin â'r cymunedau i'r de ohoni, sy'n edrych tuag at Ruthun ar gyfer eu gwasanaethau". Felly, cefnogwn gynnwys wardiau Llangollen a Llanfair Dyffryn Clwyd. Yn ogystal, cefnogwn gynnwys wardiau Argoed, Coed-llai a New Brighton, sydd â chysylltiadau agos â'r Wyddgrug.

7.11 Cefnogwn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy yn gryf. Mae'n bwysig cadw etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy yn gyfan. Credwn fod y cynigion diwygiedig yn gywir o ran ychwanegu wardiau'r Fflint a Bagillt, sydd â chysylltiadau cryf â Chei Connah yng Nglannau Dyfrdwy, at yr etholaeth.

7.12 Mae hyn yn sicrhau bod yr etholaeth gyfan yn cynnwys wardiau o Sir y Fflint yn unig ac yn hepgor wardiau Wrecsam. Mae hyn yn gwella'r sefyllfa o ran Rheol 5 (1) (b). Nodwn fod y Comisiynwyr Cynorthwyol, er eu bod yn hepgor Brymbo a Mwynglawdd, yn cynnwys dwy ward arall, sef Yr Orsedd, a Marford a Hosely. Credwn y byddai hyn yn niweidiol ac felly cefnogwn y Comisiwn yn llwyr wrth wrthod eu cynigion ar gyfer yr etholaeth hon.

7.13 Cefnogwn etholaeth arfaethedig Wrecsam yn llwyr. Mae'n bwysig bod holl etholaeth Wrecsam yn cael ei chadw'n gyfan. Nodwn fod y Comisiwn yn gwneud hynny yn y cynigion cychwynnol a'r cynigion diwygiedig, ond mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn argymhell eithrio yr Orsedd, a Marford a Hoseley, sydd nid yn unig yn waeth o dan Reol 5 (1) (c), ond hefyd yn waeth o dan Reol 5 (1) (d) gan fod cysylltiadau lleol cryf rhwng y

wardiau hyn a Gresffordd. Felly, mae symud y ddwy ward hyn yn gwaethygu'r sefyllfa o dan Reol 5 (1) (b), (c) a (d).

7.14 Cefnogwn yn llwyr y cynnig i gynnwys wardiau Brymbo a Mwynglawdd yn etholaeth Wrecsam. Roedd llawer o bryder ynghylch cynnwys y wardiau hyn yn Alun a Glannau Dyfrdwy yn y cynigion cychwynnol, ac mae'n gwneud synnwyr llwyr eu cynnwys yn etholaeth Wrecsam, gan wella'r sefyllfa o dan Reol 5(1) (b) a (d).

7.15 Hefyd, cefnogwn hepgor wardiau Esclusham, Johnstown, Pant a Phonciau sydd o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a'u cynnwys ym Maldwyn a Glyndŵr. Mae gan y wardiau hyn gysylltiadau cryf â Rhiwabon ac mae eu cynnwys gyda'i gilydd yn gwneud synnwyr.

7.16 Yn ogystal, cefnogwn yn gryf y penderfyniad i gadw holl etholaeth Maldwyn yn gyfan. Nodwn y gefnogaeth eang i'r sefyllfa hon.

7.17 Felly, cefnogwn yn gryf y cynnig gan y Comisiwn sy'n cadw etholaeth Maldwyn yn gyfan. Wrth wneud hyn, maent wedi gwneud penderfyniad synhwyrol i wrthod argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol a fyddai wedi rhannu Maldwyn a thorri cysylltiadau rhwng y Drenewydd a wardiau i'r de. Mae eu cynnig yn waeth mewn perthynas â Rheol 5(1) (c) a (d).

7.18 Nid ydym ychwaith yn cefnogi cynnig y Comisiynwyr Cynorthwyol i greu etholaeth fawr ac anhylaw iawn ar gyfer Maldwyn a Meirionnydd, sy'n ymestyn o'r ffin â Lloegr i arfordir Cymru. Wrth wneud hyn, mae etholaethau presennol Dwyfor Meirionnydd a Maldwyn yn cael eu rhannu, gan dorri Rheol 5 (1) (c).

7.19 Felly, cefnogwn y cynigion diwygiedig ar gyfer pob un o'r saith etholaeth yn yr ardal hon.

8. CASGLIAD

8.1 Rydym wedi gwneud sylwadau ar 31 o'r etholaethau arfaethedig yn y cynigion diwygiedig.

8.2 Nid ydym wedi gwneud unrhyw sylwadau ar etholaeth Ynys Môn gan fod hon yn etholaeth warchoddedig ac nid oes unrhyw ddadl yn ei chylch.

8.3 Credwn fod y Comisiwn wedi gwella ar y cynigion cychwynnol mewn nifer o ffyrdd.

8.4 O ran Rheol 5 (1) (b), maent wedi gwella ar y cynigion cychwynnol wrth rannu awdurdod lleol Wrecsam rhwng dwy etholaeth yn hytrach na 3, a rhannu awdurdod Caerffili rhwng tair etholaeth yn hytrach na 4. Yn ogystal, sicrheir bod etholaethau Alun a Glannau Dyfrdwy, a Chaerffili, wedi'u cynnwys o fewn ardal un awdurdod lleol yn hytrach na dwy.

8.5 O ran Rheol 5 (1) (c), cedwir 15 etholaeth bresennol yn gyfan gwbl o fewn etholaeth ddiwygiedig. Yn ogystal, cedwir mwy o etholwyr yn eu hetholaeth bresennol na'r cynigion cychwynnol.

8.6 O ran Rheol 5 (1) (d), cedwir cysylltiadau lleol rhwng Nelson ac Ystrad Mynach, rhwng Aberaman ac Aberdâr, rhwng Rhiwabon a Phonciau, ac ym Mangor, yn Llandrillo-yn-Rhos, ac yn Wrecsam.

8.7 Ar y cyfan, byddai cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol yn waeth na chynigion y Comisiwn o ran y Rheolau, a chredwn fod y Comisiwn yn gwbl gywir i'w gwrthod yn y mwyafrif o etholaethau.

8.8 Felly, cefnogwn yn llawn y cynigion diwygiedig, a gobeithiwn y bydd y Comisiwn yn mabwysiadu'r cynigion hyn fel eu cynigion terfynol.

BCW-10849 / [REDACTED] Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion

Amgaeaf ymateb ar ran Cyngor Sir Ceredigion oddi wrth Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor, ynghylch Arolwg 2023 o

Etholaethau Seneddol - Cynigion Diwygiedig.

I enclose a response on behalf of Ceredigion County Council from [REDACTED]

[REDACTED] Leader of the Council, in relation to the

2023 Review of Parliamentary Constituencies - Amended Proposal.

Yn gywir,

Yours sincerely,

[REDACTED]

[REDACTED]

Uwch Gynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr, Arweinydd a Chadeirydd y Cyngor

Senior Personal Assistant to the Chief Executive, Leader and Chairman of the Council



Comisiwn Ffiniau i Gymru

Anfonwyd drwy e-bost yn unig i
cffg@ffiniau.cymru

Dyddiad
Date

14 Tachwedd, 2022

Gofynnwch am
Please ask for

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

Annwyl Syr / Fadam

Ynghylch: Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol - Cynigion Diwygiedig

Diolch o galon i chi am y cyfle i roi ein barn ar Gynigion Diwygiedig Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol.

Rhoddwyd ystyriaeth i'ch Cynigion Diwygiedig. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ailddatgan ei farn a wnaed i'r Cynigion Cychwynnol ym mis Hydref 2021.

Rydym yn cydnabod fod etholaeth sir Ceredigion yn sylweddol brin o'r amrediad etholiadol statudol. Serch hynny, nid ydym yn credu mai'r cynnig a gyflwynir yn y Cynigion Cychwynnol neu Ddiwygiedig fyddai'r rhai mwyaf ffafriol am nifer o resymau.

Mae'r etholaeth a gynigir gan y Comisiwn yn fawr yn ddaearyddol, yn siwrnai o tua 2 awr 15 munud rhwng y gogledd a'r de ac yn 85 milltir o bellter. Gwelwn hefyd mai ychydig iawn o gyswllt naturiol sydd rhwng llawer o'r wardiau etholiadol hyn â Cheredigion, a byddai'r pellter yn arwain at leihau'r ymgysylltiad rhwng etholwyr a'u Haelod Seneddol o bosib.

Yn ogystal, o brofiad blaenorol pan gafwyd etholaeth seneddol Ceredigion a Gogledd Penfro, roedd consensws cyffredinol nad oedd y trefniant yn gweithio i neb – roedd yn rhy fawr yn ddaearyddol i'r AS mewn swydd ac roedd yn cwtogi ar y mynediad i'r AS hwnnw.

Cynnig amgen

Mae Cyngor Sir Ceredigion, felly, yn cyflwyno cynnig amgen yn lle etholaeth Ceredigion Preseli. Byddai'r cynnig yn creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol yn Sir Ceredigion (sydd ar hyn o bryd yn ffurfio etholaeth bresennol Ceredigion):

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Gymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.




Aberaeron (1,088), Aberporth (1,839), Aberteifi-Mwldan (1,522), Aberteifi-Rhyd-y-Fuwch (895), Aberteifi-Teifi (824), Aberystwyth Bronglais (936), Aberystwyth Canol (1,358), Aberystwyth Gogledd (1,478), Aberystwyth Penparcau (2,084), Aberystwyth Rheidol (1,776), Beulah (1,413), Borth (1,677), Capel Dewi (1,068), Ceulanamaesmawr (1,551), Ciliau Aeron (1,613), Faenor (1,985), Llanbedr Pont Steffan (1,660), Llanarth (1,222), Llanbadarn Fawr – Padarn (767), Llanbadarn Fawr – Sulien (973), Llandyfriog (1,466), Llandysilio-gogo (1,653), Tref Llandysul (1,067), Llanfarian (1,193), Llanfihangel Ystrad (1,666), Llangeitho (1,168), Llangybi (1,186), Llanrhystud (1,255), Llansantffraid (1,935), Llanwenog (1,419), Lledrod (1,812), Melindwr (1,578), Ceinewydd (810), Penbryn (1,762), Pen-parc (1,933), Tirymynach (1,403), Trefeurig (1,382), Tregaron (951), Troedyrur (1,110) ac Ystwyth (1,673).

2. Y wardiau etholiadol canlynol yn Sir Benfro (sydd ar hyn o bryd yn rhan o etholaeth bresennol Preseli Penfro):
Cilgerran (1,594), Clydau (1,189), Crymych (2,099) a Llandudoch (1,775).

3. Y wardiau etholiadol canlynol yn Sir Gaerfyrddin (sydd ar hyn o bryd yn rhan o etholaeth bresennol Dwyrain Gaerfyrddin a Dinefwr):
Cenarth (1,669), Cynwyl Gaeo (1,351), Llanfihangel-ar-Arth (2,196), Llangeler (2,772) a Llanybydder (2,027)

Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,823 o etholwyr a byddai o fewn yr amrediad etholiadol statudol.

Yn y cynnig hwn, gellid galw'r etholaeth hon yn 'Ceredigion a Dyffryn Teifi'.



Mae ein cynnig yn cyfuno wardiau etholiadol sydd â nodweddion tebyg i Geredigion yn ogystal â manteision eraill:

- Mae nodweddion ieithyddol a diwylliannol y wardiau etholiadol hyn yn debyg o ran eu natur, gyda chyfran uchel o'r etholwyr yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf;
- Mae cyswllt naturiol rhwng y wardiau etholiadol hyn ac maent yn ffurfio cymunedau naturiol sydd â chysylltiadau cymdeithasol ac economaidd ar hyd afon Teifi;

Mae'r cynnig hwn yn atgyfnerthu'r ddolen gyswllt rhwng cymunedau naturiol Dyffryn Teifi, gan gynnwys y cefnwlod ger trefi marchnad Aberteifi, Castellnewydd Emlyn, Llandysul, Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan.

Mae Dyffryn Teifi yn hollbwysig i Geredigion a'r trigolion sy'n byw yn y cymunedau hynny. Cydnabyddir ei bwysigrwydd hefyd o safbwynt economaidd drwy Gynllun Twf Dyffryn Teifi.

- Mae'r wardiau etholiadol yn ardal Dyffryn Teifi yn defnyddio gwasanaethau trawsffiniol a ddarperir o fewn etholaeth Ceredigion h.y. yn Llanbedr Pont Steffan, Llandysul ac Aberteifi. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - Addysg – yn enwedig Ysgol Bro Pedr (Llanbedr Pont Steffan), Ysgol Bro Teifi (Llandysul) ac Ysgol Uwchradd Aberteifi, ond gan gynnwys hefyd y rheiny sydd mewn ysgolion cynradd eraill. Mae 581 o ddisgyblion o Sir Gaerfyrddin yn mynychu ysgolion yng Ngheredigion a 219 o ddisgyblion o Sir Benfro (*ffynhonnell: Awdurdod Addysg Lleol Ceredigion, 13 Hydref 2021*);
- Hefyd mae llawer o ddisgyblion o Geredigion sy'n mynychu ysgolion yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, yn benodol Ysgol y Preseli (Crymch) ac Ysgol Gyfun Emlyn (Castellnewydd Emlyn) yn ogystal â rhai ysgolion cynradd.
- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol megis meddyg teulu a'r deintydd. Ar hyn o bryd mae 13,166 o gleifion wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu o Sir Gaerfyrddin a 3,072 wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu o Sir Benfro (*ffynhonnell: Canolbarth a Gorllewin Cymru, Abertawe a Gogledd Cymru, 13 Hydref 2021*);
- Hamdden, gan gynnwys y defnydd a wneir o lyfrgelloedd a chanolfannau hamdden yn Llanbedr Pont Steffan, Llandysul ac Aberteifi ond hefyd timau rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd, hoci yn ogystal â gweithgareddau hamdden eraill megis canwio, y Ffermwyr Ifanc, yr Urdd ac ati;
- Lletygarwch a gweithgareddau diwylliannol – mae'r trefi ar y ffin yn cynnig lletygarwch a gweithgareddau diwylliannol ar gyfer y rhai sy'n byw mewn wardiau etholiadol yn Nyffryn Teifi, ar yr ochr draw i'r ffin yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro;
- Cyflogaeth – mae'r trefi ar y ffin yn darparu swyddi i nifer o drigolion wardiau etholiadol Dyffryn Teifi;
- Cysylltiadau teithio – mae yna seilwaith ffyrdd yn ogystal â chysylltiadau trafndiaeth sy'n caniatáu i bobl deithio'n hwylus rhwng y wardiau etholiadol hyn yn Nyffryn Teifi.

- Bydd hyd yr etholaeth Preseli Ceredigion a gynigir gan y Comisiwn Ffiniau yn cael ei gwtogi'n sylweddol a hynny o 85 milltir i 60 milltir yn achos etholaeth Ceredigion a Dyffryn Teifi. Mae uchafswm yr amser teithio o fewn yr etholaeth yn disgyn o 2 awr 15 munud i 1 awr 35 munud. O ystyried yr angen i ystyried hepgor carbon, byddai'r etholaeth arfaethedig llai o Geredigion a Dyffryn Teifi yn cefnogi nod y Cyngor a Llywodraeth Cymru i leihau ei allyriadau carbon.
- Mae'n cadw cyfran uwch o Sir Benfro o fewn un etholaeth gan adlewyrchu'r cyswllt rhwng Abergwaun a gogledd Sir Benfro gyda chanolfan gwasanaethau trefol Hwlfordd.

Ein barn ni yw mai ein cynnig ni o Etholaeth Ceredigion a Dyffryn Teifi fyddai yn gwasanaethu trigolion yr ardal orau.

Yn amgaeëdig, at eich sylw, mae dogfen sy'n nodi sut y byddai ein cynnig yn effeithio ar etholaethau'r siroedd eraill. Fe welwch y byddai'r hyn yr ydym yn ei gynnig yn lleihau sut y mae'r tair etholaeth yn amrywio oddi wrth gwota etholiadol y DU (o +3.93% / -3.80% i +1.30% / +0.78%) a hefyd yn lleihau'r amser teithio ym mhob un.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu am drafod hyn ymhellach, mae pob croeso i chi gysylltu â 

Yn gywir




Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion

Amgaeëdig



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Arweinydd y Cyngor /
Leader of the Council

CYNNIG AMGEN A CHYNNIGION DIWYGIEDIG CYNGOR SIR CEREDIGION AR GYFER SIR GAERFYRDDIN A SIR BENFRO

Etholaeth a gynigir gan y Comisiwn Ffiniau	Etholwyr (amrediad statudol = 69,724 – 77,062)	Etholaeth amgen a gynigir gan Gyngor Sir Ceredigion	Etholwyr (amrediad statudol = 69,724 – 77,062)	Wardiau <u>a ychwanegir</u> o gymharu â chynnig y Comisiwn Ffiniau	Wardiau <u>a dynnir ymaith</u> o gymharu â chynnig y Comisiwn Ffiniau
Ceredigion Preseli	76,269	Ceredigion a Dyffryn Teifi	72,823	Cenarth (1669), Llangeler (2772), Llanfihangel-yr-Arth (2196), Llanybydder (2027), Cynwyl Gaeo (1351) [o etholaeth Caerfyrddin]	Tŷ-ddewi (1521), Solfach (1274), Llanrhian (1232), Treletert (1873), Scleddau (1158), Gogledd-ddwyrain Abergwaun (1495), Gogledd-orllewin Abergwaun (1208), Wdig (1509), Dinas Cross (1313), Trefdraeth (878) [i Sir Benfro]
Canol a De Sir Benfro	74,614	Sir Benfro	74,348	Tŷ-Ddewi (1521), Solfach (1274), Llanrhian (1232), Treletert (1873), Scleddau (1158),	Arberth (1704), Arberth Wledig (1293), Llanbedr Felfre (1284), Cilgeti/Begeli (1830), Amroth (992),

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Arweinydd y Cyngor /
Leader of the Council

Etholaeth a gynigir gan y Comisiwn Ffiniau	Etholwyr (amrediad statudol = 69,724 – 77,062)	Etholaeth amgen a gynigir gan Gyngor Sir Ceredigion	Etholwyr (amrediad statudol = 69,724 – 77,062)	Wardiau a ychwanegir o gymharu â chynnig y Comisiwn Ffiniau	Wardiau a dynnir ymaith o gymharu â chynnig y Comisiwn Ffiniau
				Gogledd-ddwyrain Abergwaun (1495), Gogledd-orllewin Abergwaun (1208), Wdig (1509), Dinas Cross (1313), Trefdraeth (878) [o Ceredigion Preseli]	Saundersfoot (1904), Penalun (1398), Dinbych-y-Pysgod: Gogledd (1658), Dinbych-y-Pysgod: De (1664) [i Caerfyrddin a Dinbych-y-Pysgod]
Caerfyrddin	70,606	Caerfyrddin a Dinbych-y-Pysgod	74,318	Arberth (1704), Arberth Wledig (1293), Llanbedr Felfre (1284), Cilgeti/Begeli (1830), Amroth (992), Saundersfoot (1904), Penalun (1398), Dinbych-y-Pysgod: Gogledd (1658), Dinbych-y-Pysgod: De (1664) [o Canol a De Sir Benfro]	Cenarth (1669), Llangeler (2772), Llanfihangel-yr-Arth (2196), Llanybydder (2027), Cynwyl Gaeo (1351) [i Ceredigion a Dyffryn Teifi]

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.



Y Comisiwn Ffiniau i Gymru
Drwy e-bost at:
cffg@ffiniau.cymru

14/11/2022

Annwyl Gomisiynwyr,

Ymateb i ymgynghoriad ar y cynigion diwygiedig ar gyfer Arolwg Seneddol 2023

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynigion diwygiedig ar gyfer Arolwg Seneddol 2023. Fe ymatebodd Comisiynydd y Gymraeg i'r ymgynghoriad ar y cynigion cychwynnol yn 2021 gan amlinellu ein hymwneud ni â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn y broses o bennu enwau wardiau a mynegi ein hanfodlonrwydd â rhai o'r penderfyniadau terfynol ynghylch yr enwau hynny. Cyfeiriwyd yn yr ymateb blaenorol hefyd at anghysondebau yn y ddogfen ymgynghori, at y term problematig 'enwau amgen' wrth sôn am enwau Cymraeg yr etholaethau, ac at sut y cafodd argymhellion y Comisiynydd eu cynrychioli a'u cyfleu yn anghywir yn adroddiadau terfynol y Comisiwn Ffiniau i Lywodraeth Cymru. Nid af ati i ailadrodd y sylwadau hynny yma felly. Mae anghysondebau pellach i'w gweld yn y cynigion diwygiedig fodd bynnag, ac felly carwn roi sylw i'r rheiny yn yr ymateb hwn.

Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe / Brecon, Radnor and Cwm-tawe

Rydym yn argymhell ysgrifennu *Cwm Tawe* yn ddau air ar wahân yn yr enw Cymraeg a Saesneg gan mai nodwedd dirweddol ydyw yn hytrach nag anheddiad. Caiff enwau aneddiadau (dinasoedd, trefi, pentrefi ayyb) eu hysgrifennu yn un gair fel rheol tra bo enwau tirweddol (cymoedd, afonydd, mynyddoedd ayyb) yn cael eu hysgrifennu fel geiriau ar wahân. Noder mai *Cwm Tawe* yw'r ffurf yn BydTermCymru ac mai dyna'r ffurf mae [Wikipedia](#) yn ei defnyddio. Wrth gyfeirio at ardal Cwm Tawe yn eich dogfen ymgynghori Gymraeg, [Cynigion Diwygiedig](#), y ffurf *Cwm Tawe* sy'n cael ei defnyddio bob tro; dim ond wrth gyfeirio at enw'r etholaeth y caiff *Cwm-tawe* ei defnyddio. Yn [fersiwn Saesneg y ddogfen](#), caiff *Cwm-tawe* ei ddefnyddio dair gwaith i gyfeirio at yr ardal ond *Swansea Valley* sy'n cael ei ddefnyddio gan amlaf.

Gŵyr a Gorllewin Abertawe / Gower and Swansea West

Mae angen sicrhau bod yr acen grom yn cael ei defnyddio bob tro yn yr enw *Gŵyr*. Mae'n gywir bob tro yn y ddogfen ymgynghori, ond yn anghywir (heb yr acen grom) yn y ddogfen Excel, *Cynigion Diwygiedig data etholwyr gan Awdurdod Lleol*. Mae angen sicrhau bod y ffurfiau'n gyson yn holl ddogfennau'r Comisiwn er mwyn osgoi dryswch a chamgymeriadau.

Canol a De Sir Benfro / Mid and South Pembrokeshire

Dyma'r ffurf Gymraeg sy'n cael ei defnyddio ym mhob man ar wahân i dudalen 30 y ddogfen ymgynghori Gymraeg, lle ceir *De a Canol Sir Benfro*. Noder pe bai'r Comisiwn yn dymuno defnyddio *De a Chanol Sir Benfro* fod angen treiglo 'canol'.

Maldwyn a Glyndŵr / Montgomeryshire and Glyndŵr

Mae angen sicrhau bod yr acen grom yn cael ei defnyddio bob tro yn yr enw *Glyndŵr* yn yr enw Cymraeg a Saesneg. Mae'n anghywir yn yr enw Saesneg ar dudalen 'Cynnwys' fersiwn Gymraeg y ddogfen ymgynghori, ac yn anghywir sawl gwaith yn fersiwn Saesneg y ddogfen. Mae hefyd yn anghywir (heb yr acen grom) yn fersiwn Gymraeg a Saesneg y ddogfen Excel, *Cynigion Diwygiedig data etholwyr gan Awdurdod Lleol*. Mae angen sicrhau bod y ffurfiau'n gyson yn holl ddogfennau'r Comisiwn er mwyn osgoi dryswch a chamgymeriadau.

Enwau dwyieithog

Caiff enwau Cymraeg a Saesneg yr etholaethau eu nodi nesaf at ei gilydd yn nhabl cynnwys y ddogfen ymgynghori ac ym mhenawdau'r adrannau unigol, ond byddai'n fanteisiol cynnwys y ddau enw pan ceir map fel sydd ar dudalen 30, ac yn y ddogfen Excel, *Cynigion Diwygiedig data etholwyr gan Awdurdod Lleol*. Mae'n bwysig sicrhau ei bod yn amlwg fod enwau dwyieithog swyddogol ar yr etholaethau er mwyn atal unrhyw gyfieithwyr rhag cyfieithu'r enwau eu hunain a defnyddio ffurf wahanol i'r enw swyddogol. Byddem yn dadlau hefyd fod gosod yr enw Cymraeg mewn cromfachau ar ôl yr enw Saesneg yn y ddogfen ymgynghori yn awgrymu bod yr enw Cymraeg yn israddol i'r enw Saesneg.

Mae'r blerwch a'r anghysondebau sy'n parhau i ymddangos yn enwau'r etholaethau yn destun pryder ac yn rhan o broblem ehangach o ran prosesau enwi'r Comisiwn. Er inni ddarparu argymhellion a nodiadau manwl ynghylch enwau'r wardiau yn ystod y broses ymgynghori honno, nid yw'r ffurfiau safonol wedi eu mabwysiadu bob tro. Yn wir, ceir rhai enwau ansafonol ac anghywir yn orgraffyddol ar brydiau, fel yn achos *Bryn-côch North a Bryn-côch South*, er enghraifft. Byddai modd gwirio unrhyw eiriadur Cymraeg a chanfod nad yw'r acen grom byth yn cael ei defnyddio uwch y gair *coch*. Mae'n rhwystredig hefyd nad oes ymrwymiad gan y Comisiwn i ddefnyddio'r ffurfiau rydym ni'n eu hargymell, hyd yn oed pan rydym ni wedi cytuno ar ffurfiau safonol yr enwau hynny ag awdurdodau lleol. Mae hyn wedi arwain at ddefnyddio a chyflwyno ffurfiau ansafonol newydd sy'n ychwanegu at broblem sy'n bodoli eisoes yng Nghymru lle mae amryw o ffurfiau gwahanol ar un enw yn cael eu defnyddio mewn rhai achosion.

Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, fod Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ar Bapur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol. Mae'r papur ymgynghori hwnnw'n tynnu sylw at y diddordeb brwd sydd gan y cyhoedd yn enwau'r wardiau etholiadol ac yn cydnabod, ar sail hyn, y dylid rhoi lle mwy canolog i enwi yn y broses adolygu. Mae'r ymarferiad hwn yn sicr yn tanlinellu'r angen i enwi gael rôl gadarnach a chliriach yn ein prosesau democrataidd. Rhaid sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth bennu'r enwau hynny fydd wrth galon democratiaeth yng Nghymru.

Pe bai chi'n dymuno trafod y sylwadau uchod yn fanylach, byddai fy swyddogion yn barod iawn i drafod.

Yn gywir,



Gwenith Price

Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg

CC:

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, R



Ysgrifennydd Gwladol Cymru,



BCW-10851 / [REDACTED] / Y Coed-duon

Annwyl Gomisiwn,

Rwy'n byw yng Nghefn Fforest ac yn falch o fod yn etholaeth Islwyn; yn bwysicaf oll, rwy'n uniaethu â chymunedau Islwyn. Pan gaeodd y pyllau glo, yn anffodus, gwanhawyd cymunedau hefyd.

Cawn ein gwanhau ymhellach wrth gael ein gosod mewn etholaeth nad oes gennym unrhyw beth yn gyffredin â hi.

Mae ein gwreiddiau yn Islwyn, nid â dinasoedd mewn etholaethau eraill, felly gofynnaf yn barchus i chi ailedrych ar eich cynnig diweddaraf a dychwelyd at eich cynnig gwreiddiol a gadael i ni aros yn Islwyn lle'r ydym yn perthyn.

Diolch i chi

Yr eiddoch yn gywir

[REDACTED]

BCW-10852 / [REDACTED] Plaid Lafur Etholaeth Cwm Cynon / Aberdâr

At sylw: Mrs Ustus Jefford DBE, y Comisiwn Ffiniau i Gymru, drwy law [REDACTED]
[REDACTED]

[REDACTED]

13 Tachwedd 2022

Ynghylch: Newidiadau i Ffiniau Cwm Cynon

Annwyl [REDACTED]

Diolch i chi am Arolwg 2023 yn ymwneud â newidiadau i etholaeth Cwm Cynon.

Mae Plaid Lafur Cwm Cynon wedi trafod yr arolwg ac wedi derbyn yr enw 'Merthyr Tudful a Chynon Uchaf', ond mae'n dymuno i'r comisiynwyr ystyried newid yr enw 'Pontypridd' i 'Cynon Isaf a Phontypridd'.

Cofion cynnes,

[REDACTED]
Ysgrifennydd Plaid Lafur Etholaeth Cwm Cynon

BCW-10853 / [REDACTED] / Y Coed-duon

Cangen Plaid Lafur Cefn Fforest a Phengam

[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]

12fed Tachwedd 2022

Annwyl Syr,

Gofynnwyd i mi ysgrifennu atoch ar ran Plaid Lafur Wardiau Cefn Fforest a Phengam. Mae wardiau Argoed, y Coed-duon, Penmaen, Cefn Fforest, Pengam, Pontllanfraith, Ynys-ddu, Crosskeys, a Dwyrain a Gorllewin Rhisga wedi bod gyda'i gilydd fel uned etholaethol ers cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae eich cynigion yn torri eich canllawiau eich hun, gan fod yn rhaid i Argoed, y Coed-duon a Phenmaen groesi Pontllanfraith (sydd wedi'i gosod yng Nghaerffili) i gyrraedd gweddill yr etholaeth newydd. Nid oes gan gymunedau Bargoed, Gilfach, Deri ac Aberbargoed unrhyw gysylltiadau o gwbl â Blaenau Gwent a byddai eich cynigion yn golygu y byddai Blaenau Gwent yn ymestyn ar draws pedwar cwm.

Nid oes unrhyw lwybrau bysiau uniongyrchol yn cysylltu Islwyn â Maerun, Graig a Pharc Tredegar. Fodd bynnag, mae bws Casnewydd-Bargoed yn mynd drwy Graig gan ei chysylltu â Chaerffili. Mae'n siŵr y byddai'n gwneud mwy o synnwyr i osod Maerun, Graig a Pharc Tredegar (nifer yr etholwyr: 13,279) yng Nghaerffili, a dychwelyd Cefn Fforest, Pengam, Pontllanfraith a Maesycwmer (nifer yr etholwyr: 13,759) i Islwyn.

Fel arall, gallai Caerffili gadw Bargoed, Gilfach, Aberbargoed a Deri (a Phontlotyn a Thredegar Newydd, o bosibl) a fyddai'n creu etholaeth gryno. Gallai Cefn Fforest, Pengam, Pontllanfraith a Maesycwmer ddychwelyd i Islwyn, a gallai Crymlyn, Trecelyn ac Aber-carn, a fu gynt yn rhan o etholaeth Abertyleri, ymuno â Blaenau Gwent.

[REDACTED]

Ysgrifennydd y Ward



**Comisiwn Ffiniau
i Gymru**

**Boundary Commission
for Wales**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023